# Atodiad A

# Materion FfDC

Mae’r atodiad hwn yn cynnwys crynodebau o’r materion allweddol ar gyfer y FfDC, a nodwyd gan randdeiliaid drwy ymarferion ymgysylltu ffurfiol ac anffurfiol a gynhaliwyd yn ystod 2016-17. Mae’r materion hyn, yn eu tro, wedi bod yn sail i Amcanion y Fframwaith. Ceir rhagor o fanylion ar dudalennau'r Fframwaith ar y we:

http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/statement-of-public-participation/engagement-events/?lang=cy

Dyma’r materion sy’n cael eu trafod yn yr atodiad hwn:

- **A. Diwylliant**
- **B. Newid yr Hinsawdd, Datgarboneiddio ac Ynni**
- **C. Cysylltedd Digidol**
- **D. Yr Economi**
- **E. Tai**
- **F. Adnoddau Naturiol**
    - **Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy**
    - **Economi Gylchol**
    - **Llifogydd**
- **G. Trafnidiaeth**
- **H. Y Gymraeg**
- **I. Iechyd**

Dyma’r prif ffynonellau tystiolaeth ar gyfer pob mater: Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol, a’r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol. Gellir eu gweld yn:

**Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol**

http://gov.wales/docs/strategies/170919-prosperity-for-all-cy.pdf

**Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol**

http://gov.wales/statistics-and-research/future-trends/?lang=cy

Cyfeirir at ffynonellau tystiolaeth eraill yn yr atodiad, ac maen nhw i'w cael yn yr ôl-nodiadau.

# A Diwylliant

Diwylliant a Threftadaeth

Culture and Heritage

# A. Diwylliant - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

## Trosolwg

Mae pwysigrwydd diwylliant wedi'i gynnwys yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n cydnabod diwylliant drwy un o'i nodau, sef: 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Mae'r disgrifiad o'r nod hwn yn sefydlu'r amcan a ganlyn: 'Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.' Mae'r system gynllunio'n gallu chwarae ei rhan ledled Cymru drwy gefnogi cynigion datblygu sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ein profiadau diwylliannol.

## Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Mae Ffyniant i Bawb yn cyfeirio at agweddau ar ddiwylliant yn y ddogfen drwyddi draw. Dyma'r ddau amcan allweddol yn y ddogfen sy'n cyfeirio at ddiwylliant:

- 'Datblygu cymunedau, diwylliant ac iaith sy'n gydnerth'.
  - Mae'r amcan hwn yn trafod sut i greu gwlad sydd â chymunedau bywiog, lle mae'r gorffennol a'r dyfodol yn cael eu cydnabod a lle mae'r diwylliant, y dreftadaeth a'r amrywiaeth yn cael eu dathlu.
- 'Hyrwyddo a diogelu lle Cymru yn y byd.'
  - Mae'r amcan hwn yn dweud sut mae rhagoriaeth mewn meysydd megis diwylliant wedi cyfrannu at ddiffinio'r Gymru fodern ledled y byd, a rhaid cynnal ac adeiladu ar yr enw da hwn a'r hunaniaeth hon.

Mae gan Lywodraeth Cymru strategaeth genedlaethol bwrpasol ar gyfer diwylliant, o'r enw Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru[i].

Dyma rai o'r negeseuon allweddol yn ymwneud â diwylliant sy'n deillio o'r ddogfen hon:

- Ystyr diwylliant yw 'celfyddydau, cerddoriaeth, llenyddiaeth a threftadaeth', a'r holl weithgareddau creadigol sy'n rhoi pwrpas ac ymdeimlad o berthyn a hunaniaeth i bobl.
- Bod diwylliant yn flaenoriaeth ac y dylid ei hyrwyddo a'i ddiogelu;
- I Gymru fod 'y wlad fwyaf creadigol weithgar yn Ewrop';
- I'r sector diwylliant gynhyrchu ffynonellau incwm newydd, oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â chyllid yr Undeb Ewropeaidd; ac
- I ddiwylliant gefnogi meysydd eraill, gan gynnwys iechyd, addysg, adfywio a'r economi.

## Beth yw prif dueddiadau'r dyfodol?

Mae'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn nodi demograffeg pobl Cymru, sy'n ymwneud â diwylliant mewn termau cyffredinol. Dyma'r negeseuon allweddol yn hyn o beth:

- Gellir ystyried bod y teimlad o hunaniaeth Gymreig yn un eithaf sefydlog, a gellir ei ystyried fel rhywbeth sy'n unigryw i Gymru, gyda rhyw 85% o'r bobl a anwyd yng Nghymru yn dweud eu bod yn Gymry.
- Mae newidiadau technolegol yn hybu newidiadau diwylliannol yng Nghymru. Gwelir hyn yn y data sy'n dangos bod defnyddio seilwaith band eang yn dod yn fwyfwy cyffredin, ac mae defnyddio'r rhyngrwyd wedi cynyddu ymhob grŵp oedran yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf

## Beth yw'r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?

Mae deddfwriaeth a strategaethau Llywodraeth Cymru yn nodi sut gall diwylliant gwmpasu nifer o feysydd pynciol yng Nghymru. Nid oes gan rai ohonyn nhw oblygiadau gwirioneddol i ddefnydd tir, ond mae hynny gan rai eraill. Er enghraifft, mae treftadaeth yn rhywbeth sy'n bresennol yn gorfforol yn ein tirwedd drwy adeiladau, adeileddau a dynodiadau felly gallai datblygiad newydd effeithio arnynt. Gallai rhai pynciau eraill ymwneud â dewisiadau a thueddiadau cymdeithasol na ellir dylanwadu'n uniongyrchol arnynt drwy'r Fframwaith. Fodd bynnag, gallai'r system gynllunio gael effaith anuniongyrchol ar hyn drwy ddatblygiadau sy'n hwyluso yn hyn o beth, er enghraifft, drwy ddarparu cyfleusterau priodol.

Mae nifer o oblygiadau posibl o ran cynllunio ym maes diwylliant yn deillio o'n rhaglenni a'n strategaethau cenedlaethol. Dylid ystyried y rhain wrth baratoi ar gyfer y Fframwaith:

- Cydnabod, diogelu, hyrwyddo a helaethu'r diwylliant sydd gennym eisoes.
  - Byddai'r diwylliant sydd gennym eisoes yn cynnwys, er enghraifft, sicrhau bod asedau hanesyddol a'r cyfleusterau chwaraeon sy'n bodoli eisoes yn cael eu hystyried wrth gynllunio ar gyfer datblygiad newydd;
- Galluogi / hwyluso cyfleoedd diwylliannol newydd ar lefel genedlaethol.
  - Gellid darparu cyfleoedd diwylliannol drwy weithgareddau cysylltiedig, twf economaidd, adfywio, twristiaeth, y Gymraeg, iechyd a chyfleoedd rhyngwladol ar gyfer pobl Cymru.
  - Gallai gweithgareddau technolegol, megis darparu seilwaith band eang, ddarparu manteision diwylliannol pellach; er enghraifft, drwy alluogi'r defnydd o'r cyfryngau cymdeithasol.
- Cydnabod bod prosiectau sy'n arwyddocaol yn genedlaethol dan arweiniad diwylliant yn cael eu datblygu ar gyfer Cymru.
  - Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi nifer o brosiectau ym maes diwylliant, a gallen nhw ddod ymlaen dros y blynyddoedd nesaf. Gallai'r rhain gynnwys

Oriel Gelf Genedlaethol ar gyfer Cymru a Stadiwm Athletau Cenedlaethol ar gyfer Cymru. Gallai'r Fframwaith gydnabod potensial prosiectau o'r fath i flaenoriaethu a chreu lleoedd a cheisio cael y nifer fwyaf o effeithiau cadarnhaol i'r datblygiadau hyn.

### Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Mae diwylliant yn cael ei gydnabod yng Nghymru drwy ddeddfwriaeth a strategaethau amrywiol Llywodraeth Cymru. Mae'r gair 'diogelu' yn cael ei ddefnyddio'n aml wrth gyfeirio at ddiwylliant. Er enghraifft, mae strategaethau cyfredol yn cyfeirio at yr angen i ddiogelu'r hyn sy'n bodoli eisoes o ran treftadaeth a hefyd drwy bolisi cynllunio cenedlaethol ar gyfer y ddarpariaeth chwaraeon bresennol[2]. Felly, mae'n bwysig i'r Fframwaith adlewyrchu'r sefyllfa strategol hon, drwy gydnabod yr asedau diwylliannol sydd eisoes yn bodoli yng Nghymru a diogelu'r hyn sydd gennym eisoes.

O ran y diwylliant sydd gennym eisoes, mae Llywodraeth Cymru yn mynd ymhellach na dim ond ceisio sicrhau ei fod yn parhau. Ceir trafodaeth helaeth ar hyrwyddo diwylliant o ran y modd y mae'n gallu diffinio Cymru yn y byd yn ehangach. Ceir cyfeiriad pellach ar helaethu'r diwylliant sydd gennym, yn enwedig yng nghyd-destun asedau sydd gennym megis treftadaeth. Felly, mae'n bwysig hefyd fod y Fframwaith yn cefnogi'r safbwynt strategol hwn o hyrwyddo, a phan fo'n bosibl, i helaethu asedau diwylliannol sydd gennym eisoes.

I gloi, mae Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at nifer o bynciau ehangach yng nghyd-destun diwylliant, megis iechyd, addysg, adfywio a'r economi. Trafodir sut na ddylai'r pynciau hyn fod ar wahân i ddiwylliant, ond y gallent gefnogi nodau ac amcanion ei gilydd. Drwy ddatblygu'r system gynllunio'n briodol, a hynny dan arweiniad adfywio neu'r economi, er enghraifft, gallai ddarparu cyfleoedd diwylliannol. Felly, mae'n bwysig i'r Fframwaith gefnogi datblygiadau a allai hwyluso diwylliant yn y cyd-destun hwn.

| **Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith – Diwylliant a Threftadaeth** |
|---|
| Diogelu, hyrwyddo a helaethu asedau diwylliannol a hanesyddol cenedlaethol.<br><br>Cefnogi cyfleoedd ar gyfer datblygiadau cenedlaethol newydd ym maes diwylliant. |

# B Newid yr Hinsawdd, Datgarboneiddio ac Ynni

Newid yr Hinsawdd, Datgarboneiddio ac Ynni

Climate Change, Decarbonisation and Energy

# B. Newid yr Hinsawdd, Datgarboneiddio ac Ynni - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

## Trosolwg

Gellid dadlau mai'r newid yn yr hinsawdd yw’r her fwyaf sy'n wynebu'r byd. Mae’n bwysig i Gymru fod yn gydnerth rhag effeithiau’r newid yn yr hinsawdd a’i bod yn lleihau ei allyriadau nwyon tŷ gwydr. Swyddogaeth y system gynllunio yw hwyluso datblygu cynaliadwy a’i gwneud yn bosibl i symud tuag at economi carbon isel, sy’n lliniaru ac yn ystyried yr effeithiau ar yr hinsawdd yn y dyfodol.

## Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i fynd i’r afael â’r hyn sy'n achosi newidiadau yn yr hinsawdd a beth yw canlyniadau hynny. Rhoddwyd ymrwymiad yn y ddeddfwriaeth i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru o leiaf 80% erbyn 2050[3]. Mae targedau interim, cyllidebau carbon a chynlluniau cyflenwi wrthi'n cael eu datblygu. Yn y cyfamser, mae targed yn bodoli yn y polisi i leihau allyriadau 3% flwyddyn ar ôl blwyddyn, a 4% erbyn 2020 yn yr holl allyriadau[4]. Ein huchelgais yw creu economi gynaliadwy carbon isel, a’n blaenoriaethau o ran ynni yw:

- Defnyddio llai o ynni yng Nghymru;
- Dibynnu llai ar ynni a ddaw gan danwydd ffosil;
- Mynd ati i reoli’r newid i economi carbon isel[5].

Ein nod yw trefnu amrywiaeth eang o dechnolegau adnewyddadwy a charbon isel, ymhob graddfa, tra hefyd yn cydnabod y bydd nwy yn danwydd trosiannol allweddol[6]. Rydyn ni wedi gosod y targedau uchelgeisiol a ganlyn ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy:

- Bod 70 y cant o’r trydan y mae Cymru yn ei ddefnyddio gael ei gynhyrchu o ffynonellau ynni adnewyddadwy erbyn 2030.
- Bod un Gigawatt o gapasiti trydan adnewyddadwy yng Nghymru eiddo i ardaloedd lleol erbyn 2030.
- Bod prosiectau ynni adnewyddadwy yn cael o leiaf elfen o berchnogaeth leol erbyn 2020[7].

## Beth yw prif dueddiadau’r dyfodol?


O ganlyniad i allyriadau nwyon tŷ gwydr yn y gorffennol a heddiw, ni allwn osgoi canlyniadau'r newid yn yr hinsawdd. Mae tymheredd y byd yn codi, a hyd yn oed yn y senario gorau, mae’n debyg y daw effeithiau arwyddocaol yn genedlaethol, yn ogystal ag yn fyd-eang, y tu hwnt i'r rhai a welwyd eisoes. Mae’r risgiau i Gymru yn cynnwys y canlynol:

- Risgiau i seilwaith (o bob ffynhonnell llifogydd)

- Risgiau i gyflenwadau dŵr oherwydd sycher a llif isel
- Risgiau oherwydd bod rhai arferion rheoli tir yn gwaethygu’r perygl o lifogydd
- Risgiau i ecosystemau a busnesau amaeth oherwydd newidiadau yn amgylchiadau'r hinsawdd
- Risgiau i gymunedau oherwydd pob ffynhonnell llifogydd a lefel y môr yn codi
- Risgiau i seilwaith, busnesau ac adeiladau oherwydd llif uwch mewn afonydd, erydu a thywydd eithafol
- Risgiau a chyfleoedd oherwydd newidiadau yn lefel cynhyrchiant amaethyddiaeth a choedwigaeth
- Risgiau i iechyd a llesiant pobl a’r gwasanaethau cysylltiedig a ddarperir, oherwydd gwres uchel, llifogydd a thywydd eithafol.

Mae lefel gyffredinol yr allyriadau yng Nghymru yn lleihau, a bu gostyngiadau arwyddocaol yn y sectorau busnes, preswyl, gwastraff a chyhoeddus. Ond bach fu’r gostyngiadau yn y sectorau ynni a chludiant, sef dau o'r cyfranwyr mwyaf, a bydd angen camau pellach sylweddol i gyrraedd y targedau heriol.

### Ffigur B1: Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr yng Nghymru, fesul Sector





*Ffynhonnell: Rhestrau Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon: 1990-2015*[1]

[1] Rhestrau Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon: 1990-2015

Mae gan Gymru botensial mawr i gynhyrchu trydan, yn enwedig o ffynonellau carbon isel ac adnewyddadwy, ac mae'n allforwr trydan net. Yn 2016, llwyddodd Cymru i gael 43 y cant o'i thrydan drwy gynhyrchu adnewyddadwy. Bu cynnydd cyflym o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy, a dyblodd yn y pum mlynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, dim ond tua 17% o'r holl ynni a ddefnyddir yw trydan, mae'r gweddill yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gwres a chludiant. Mae'r defnydd o ynni yng Nghymru hefyd wedi gostwng 14% ers 2005[8]. Gwneir cynnydd gobeithiol o ran defnyddio llai o drydan a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy. Ond mae angen cynhyrchu rhagor gyda thechnolegau adnewyddadwy a charbon isel a datgarboneiddio gwres a chludiant i allu cyrraedd ein targedau.

## Ffigur B2 – Tueddiadau Cynhyrchu Trydan yng Nghymru




*Ffynhonnell: Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2016[2]*

Yn dilyn toriadau Llywodraeth y DU i'r gyfundrefn cymorthdaliadau ynni adnewyddadwy, mae datblygwyr yn wynebu amgylchedd heriol o ran buddsoddi. Ond, mae'n bosibl cael datblygiadau technolegol i wella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac argaeledd ynni adnewyddadwy a charbon isel. Gallai defnyddio

[2] Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2016

technolegau cyfredol, megis pŵer yr haul a storio ynni, fod yn gymorth hefyd i ynni adnewyddadwy a charbon isel ymdreiddio fwy.

Disgwylir twf yn y defnydd o gerbydau trydan a charbon isel, sef cyfle enfawr i ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth. Ond mae hefyd yn golygu her o ran cynhyrchu mwy o drydan o ynni adnewyddadwy a charbon isel, er mwyn sicrhau holl fanteision o ran datgarboneiddio.

### Beth yw'r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?

Dylai gorfod lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr fod yn fater allweddol Cymru gyfan i'r Fframwaith, a chyfyngu gymaint â phosibl ar ganlyniadau'r newid yn yr hinsawdd, a mynd ati i reoli'r newid i economi carbon isel.

Mae potensial sylweddol gan Gymru o ran bron bob ffynhonnell ynni carbon isel ac adnewyddadwy, a gall y Fframwaith hwyluso a cheisio sicrhau eu manteision ehangach. Wedi'u nodi isod, mae'r materion gofodol allweddol mewn perthynas ag ynni ar gyfer y Fframwaith:

- Yng ngogledd Cymru, mae Ynys Ynni Ynys Môn a Wylfa Newydd. Mae cyfleoedd arwyddocaol yn economaidd a chymdeithasol yn deillio o'r prosiectau hyn. Mae gan yr ardal botensial o ran ynni'r haul a'r gwynt hefyd, yn ogystal â'r marchnadoedd sy'n agor ar gyfer Adweithyddion Modiwlar Bach. Mae angen seilwaith grid newydd i gysylltu'r trydan a'r grid.

- Yng nghanolbarth Cymru, mae potensial o ran cael prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr, fel y nodir yn yr Ardaloedd Chwilio Strategol. Gall y datblygiadau hyn ddarparu manteision cymunedol, gan ofyn am ddiogelu ein hasedau naturiol, diwylliannol a threftadaeth gwerthfawr ar yr un pryd. Mae angen seilwaith newydd i gysylltu'r trydan a'r grid.

- Yn ne-orllewin Cymru, mae mewnforion LNG a'u dosbarthiad yn bwysig yn strategol o ran cyflenwi nwy, sef tanwydd trosiannol allweddol, ac maent yn cynnig manteision economaidd cysylltiedig ar gyfer Sir Benfro a'r ardal yn ehangach.


- Yn ne Cymru, sef prif ardal drefol Cymru, sy'n cynnwys canolfannau poblogaeth mawr a diwydiant (yn cwmpasu Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a'r Cymoedd), mae potensial o ran datgarboneiddio, effeithlonrwydd ynni, rhwydweithiau gwres a chynhyrchu ynni integredig ar gyfer adeiladau/safleoedd.

- Mae potensial am ynni adnewyddadwy sylweddol oddi ar ein harfordir, gan gynnwys ynni'r llanw, y tonnau a gwynt. Mae Cynllun Morol Cenedlaethol

Cymru yn ceisio manteisio i'r eithaf ar y cyfle i ddatblygu adnoddau ynni adnewyddadwy'r morol, tra hefyd yn ystyried buddiannau ei gilydd a chadernid ecosystemau. Mae gan y system gynllunio ran bwysig i'w chwarae yn hwyluso gofynion y cynhyrchwyr ar y tir, yn ogystal â galluogi manteision hamdden a thwristiaeth cysylltiedig.

- Mae'n un o amcanion Llywodraeth Cymru i sefydlu proses bwrpasol ar gyfer caniatadau seilwaith, a honno'n ymateb i anghenion busnesau a'r gymuned, er mwyn cefnogi twf economaidd cynaliadwy, ac i ddatgarboneiddio ein cyflenwad ynni. Mae penderfyniadau sy'n deillio o'r broses hon, sydd wedi'i symleiddio, wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r Fframwaith ar y tir. Gall polisïau yn y Fframwaith ddarparu sicrwydd i hyrwyddwyr ynni adnewyddadwy yng Nghymru, ac annog twf yn y sector ynni adnewyddadwy.

# Ynni


Wylfa Newydd (arfaethedig)
Caergybi
Llangefni
Llandudno
Bae Colwyn
Y Rhyl
Conwy
Llanelwy
Bangor
Dinbych
Yr Wyddgrug
Caernarfon
Rhuthun
Wrecsam
Blaenau Ffestiniog
Llangollen
Porthmadog
Penrhyndeudraeth
Y Bala
Pwllheli
Harlech
Abermo
Dolgellau
Y Trallwng
Tywyn
Machynlleth
Aberdyfi
Y Drenewydd
Llanidloes
Aberystwyth
Aberaeron
Tregaron
Llandrindod
Llanfair-ym-Muallt
Aberteifi
Llanbedr Pont Steffan
Y Gelli
Abergwaun
Aberhonddu
Tyddewi
Caerfyrddin
Hwlffordd
Cross Hands
Rhydaman
Y Fenni
Trefynwy
Nwy Naturiol Hylifedig Aberdaugleddau
Doc Penfro
Penfro
Dinbych-y-pysgod
Llanelli
Glynebwy
Merthyr Tudful
Pontypŵl
Cwmbrân
Cas-gwent
Castell-nedd
Abertawe
Port Talbot
Pontypridd
Caerffili
Casnewydd
Morlyn Llanw Bae Abertawe (arfaethedig)
Pen-y-bont ar-Ogwr
Caerdydd
Y Barri
A
B
C
D
E
F
G
Datblygu Ynni
Ardal Chwilio Strategol TAN 8
Pibell Nwy
Gwifren Bwer Trydan Hybrid
© Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2018.
Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/112/17.18
Ffynhonnell ddata: National Grid, 2016
Mawrth 2018

### Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Gall y Fframwaith gefnogi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fagu cadernid rhag effeithiau'r newid yn yr hinsawdd. Gall y Fframwaith hefyd gefnogi targedau Llywodraeth Cymru ar leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr, drwy sicrhau bod datgarboneiddio’n egwyddor ganolog a’i bod yn cael ei hintegreiddio ymhob rhan o'r cynllun. Dylai’r Fframwaith gefnogi’r gwaith o ddatgarboneiddio’r sectorau ynni, tai, cludiant, busnes, amaethyddiaeth a defnydd tir.

Gall y Fframwaith chwarae rhan allweddol yn mynd ati i reoli'r newid i economi carbon isel a chyrraedd ein targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy. Gall y Fframwaith gefnogi gostyngiad yn y defnydd o ynni a’r ynni a gynhyrchir gan danwyddau ffosil. Dylai'r Fframwaith gefnogi'r defnydd eang o ynni adnewyddadwy a charbon isel, ar gyfer amrywiaeth o dechnolegau. Gall y Fframwaith adnabod a darparu’r cyd-destun polisi ar gyfer prosiectau ynni sy’n Ddatblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Dylai'r Fframwaith adnabod safleoedd neu ardaloedd gofodol neu gynorthwyol sydd â’r potensial ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy a charbon isel sy’n arwyddocaol yn genedlaethol. Yn ogystal â datblygiadau ar raddfa fawr, dylai'r Fframwaith hefyd ddarparu fframwaith ar gyfer cynhyrchu’n lleol, megis Rhwydweithiau Gwresogi Ardal, technolegau newydd a datblygiadau sydd o fudd i'r gymuned leol.

| Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - Newid yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni |
|---|
| Galluogi'r newid i economi carbon isel.<br><br>Galluogi'r gwaith o reoli ac addasu ar gyfer canlyniadau’r newid yr hinsawdd.<br><br>Cefnogi datgarboneiddio yng Nghymru, a helpu i gyrraedd targedau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru. |

# C Cysylltedd Digidol

Isadeiliedd Digidol

Digital Infrastructure

## C. Cysylltedd Digidol - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

### Trosolwg

Mae cysylltedd digidol yn un o'r pethau sy'n ysgogi twf economaidd, ac mae'n hollbwysig ar gyfer cynhyrchiant a bod yn gystadleuol. Mae hefyd yn hanfodol ar gyfer gweithredu a darparu gwasanaethau cyhoeddus, ac ar gyfer gweithgareddau cymdeithasol unigolion a llesiant cymdeithas.

Mae'r system gynllunio'n chwarae rhan bwysig yn helpu i greu'r amgylchedd cywir ar gyfer trefnu seilwaith ar gyfer telathrebu ffonau symudol a band eang. Mae'r polisi cynllunio cenedlaethol yn annog Awdurdodau Cynllunio Lleol i ymateb yn gadarnhaol i gynigion datblygu, ac mae hawliau helaeth o ran datblygiadau a ganiateir er mwyn cefnogi gweithredwyr i gyflwyno'r seilwaith.

Mae'r gwaith o gyflwyno seilwaith band eang a ffonau symudol ledled Cymru yn mynd yn ei flaen, ac mae amryw o fentrau i helpu i gyflawni hyn. Ond oherwydd y boblogaeth wasgaredig a'r topograffi, mae'r ddarpariaeth yn wael mewn rhai ardaloedd neu nid yw ar gael o gwbl, a gall hynny effeithio ar hyfywedd gofynion seilwaith newydd. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod gwasanaethau ffonau symudol a band eang, sy'n fodern ac effeithiol, ar gael i bawb.

### Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

### Ffyniant i Bawb

- Mae bod yn fwy cynhyrchiol a chystadleuol yn ganolog i ddyfodol economaidd Cymru; bydd cysylltedd digidol yn gymorth i wneud hyn
- Mae seilwaith digidol yn hanfodol wrth ddarparu'r gwasanaethau angenrheidiol i aros yn iach, i ddysgu, i gael cyflogaeth, ac i sicrhau ffyniant
- Mae sgiliau digidol yn rhan hanfodol o'r economi
- Mae'n bwysig darparu band eang cyflym a dibynadwy i rannau o Gymru nad yw'r farchnad yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd
- Mae cysylltedd digidol yn bwysig er mwyn mynd i'r afael â phatrymau gweithio sy'n newid, er mwyn lleihau tagfeydd traffig, ac er mwyn cefnogi dyheadau am fyw â lefel is o garbon.

### Cyflawni Cymru Ddigidol

Mae Cyflawni Cymru Ddigidol [9] yn parhau'n strategaeth gyffredinol ar gyfer datblygu cysylltedd digidol yng Nghymru. Dyma'r prif nodau:

- Dylai pawb allu mwynhau manteision technolegau digidol
- Dylai plant ac oedolion fod yn gallu datblygu sgiliau TGCh
- Dylai gwasanaethau cyhoeddus fod yn fwy cysylltiedig, yn fwy cyfleus ac yn fwy effeithlon
- Economi lewyrchus sy'n cael ei hybu gan dechnoleg, ac ymchwil a datblygu
- Creadigrwydd diwylliannol Cymreig sy'n ffynnu
- Darpariaeth ffonau symudol a diwifr gwell ledled Cymru

## Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol

Mae 'Cyflawni Cymru Ddigidol' yn cael ei ategu gan y Cynllun Gweithredu Ffonau Symudol[10]. Mae'r cynllun yn nodi sut bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r diwydiant ffonau symudol a'r rheoleiddiwr i ddarparu cysylltedd i ddiwallu anghenion Cymru. Mae'r camau'n cynnwys diwygio hawliau datblygiadau a ganiateir er mwyn cynorthwyo anghenion cwmnïau ffonau symudol a symleiddio'r broses gynllunio, ac adnewyddu'r polisi cynllunio i gefnogi'r defnydd o offer telathrebu.

## Mentrau Strategol Llywodraeth Cymru

- Prosiect Superfast Cymru[11]. Comisiynu BT i ddarparu band eang cyflym iawn mewn ardaloedd lle mae angen ymyrraeth. Mae mwy na 647,000 o gartrefi a busnesau wedi cael cysylltiadau ers 2013. Daeth y prosiect i ben ar 31 Rhagfyr 2017, ond bydd Llywodraeth Cymru yn ceisio ehangu'r prosiect buddsoddi hyd at 2020 a sefydlu contract newydd yng ngwanwyn 2018.

- Mae Access Broadband Cymru[12] yn ariannu'r costau ar gyfer gosod cysylltiadau band iawn cyflym iawn newydd i gartrefi a busnesau yng Nghymru. Mae'r cynllun yn defnyddio technoleg lloeren, diwifr a 4G, a bydd yn weithredol tan fis Mawrth 2018.

- Mae'r Cynllun Taleb Gwibgyswllt[13] yn darparu hyd at £10,000 i helpu i ariannu'r gwaith o osod gwibgysylltiadau ar gyfer busnesau yng Nghymru. Bydd y cynllun yn weithredol tan fis Mawrth 2018.

- Bydd y cynllun datblygu Cyflymu Cymru i Fusnesau yn hyfforddi ac yn cefnogi busnesau i fanteisio'n llawn ar fand eang cyflym iawn.

## Polisi Cynllunio Cymru

- Gan gydnabod effaith cyfathrebu digidol ar yr economi, mae Awdurdodau Cynllunio yn cael eu hannog i ymateb yn gadarnhaol i ddatblygiadau ym maes telathrebu, tra hefyd yn ystyried yr angen i ddiogelu ardaloedd gwledig a threfol sensitif.

- Mae llawer o'r seilwaith telathrebu yn dod dan hawliau datblygiadau a ganiateir. Ond mae awdurdodau a gweithredwyr yn cael eu hannog i weithio gyda'i gilydd i ganfod yr atebion gorau posibl er mwyn cael y nifer isaf bosibl o fastiau ac i rannau mastiau os oes modd.

- Dylai cynlluniau datblygu nodi polisïau a chynigion ar gyfer lleoli datblygiadau telathrebu pwysig pan fo'r rheini'n hysbys, a chynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiadau eraill.

## Beth yw prif dueddiadau'r dyfodol?

- Mae darparu seilwaith band eang yn datblygu'n gyflym ar ôl dechrau araf o gymharu â gweddill y DU. Mae demograffeg a thopograffi Cymru wedi rhwystro cysylltedd.

### Ffigur C1 - Argaeledd Gwasanaethau Digidol ledled y DU

| Llwyfan | DU2016 | DU2015 | Lloegr | Yr Alban | Cymru | Gogledd Iwerddon |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llinell sefydlog[1] | 99.9% | 99.9% | 100% | 99.9% | 100% | 100% |
| 2G symudol[2] | 99.6% | N/A | 99.7% | 99.1% | 98.4% | 98.8% |
| 3G symudol[3] | 99.6% | N/A | 99.8% | 97.9% | 98.6% | 99.4% |
| 4G symudol[4] | 97.8% | N/A | 98.8% | 92.0% | 90.1% | 99.3% |
| Teledu lloeren digidol[5] | 98% | 98% | No data | No data | No data | No data |
| Teledu daearol digidol[6] | 99% | 99% | 99% | 99% | 98% | 97% |
| DAB BBC Rhwydwaith[7] | 97.2% | 95.4% | 98.2% | 95.0% | 92.2% | 85.4% |
| DAB rhwydwaith masnachol (Digital One)[8] | 91.3% | 89.8% | 94.6% | 80.3% | 67.4% | 77.9% |
| DAB rhwydwaith masnachol (Sound Digital)[9] | 76.5% | N/A | 80.2% | 64.4% | 51.5% | 56.6% |
| LLU ADSL band eang[10] | -- | 95% | 96% | 89% | 93% | 89% |
| Virgin Media cable broadband[11] | -- | 44% | 47% | 36% | 21% | 27% |
| BT Openreach/Kcom band eang feibr[12] | -- | 82% | 82% | 75% | 83% | 92% |
| NGA band eang[13] | -- | 90% | 90% | 85% | 87% | 95% |
| Band eang cyflym iawn[14] | -- | 84% | 84% | 73% | 79% | 77% |

*Ffynonellau: Ofcom a gweithredwyr*

- Mae ehangu'r seilwaith y rhyngrwyd symudol yn debygol o barhau, a bydd hynny'n gymorth i gyrraedd cartrefi nad ydyn nhw'n gallu cael rhyngrwyd cyflymach ar hyn o bryd. Bydd technoleg symudol 5G yn creu newid sylweddol yn y cysylltedd, ac yn caniatáu cysylltedd cyflym iawn/lled band uchel i ddefnyddwyr ffonau symudol ledled Cymru.

- Mae seilwaith ledled Cymru yn agored i amrywiaeth o beryglon o ran yr hinsawdd, a rhagwelir y bydd y rhain yn digwydd yn amlach ac yn mynd yn fwyfwy difrifol. Gallai hyn effeithio ar seilwaith digidol, yn enwedig gwasanaethau telathrebu symudol.

- Mae defnyddio'r rhyngrwyd yn parhau i dyfu, ynghyd â defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu. Mae pobl yng Nghymru yn fwy tebygol na gweddill y DU i ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol. Er gwaethaf hyn, mae sgiliau digidol yn dal ar ei hôl hi.

- Gallai datblygiadau mewn technolegau'r cartref, trafnidiaeth ac ynni gael effaith drawsffurfiol ar ymddygiad y boblogaeth, hyd yn oed mewn amser eithaf byr. Mae'r 'Rhyngrwyd Pethau' (lle mae peiriannau a dyfeisiadau yn y cartref wedi'u cysylltu â'r we) wrthi'n dod yn wir.

### Beth yw'r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?

- Nid yw polisi telathrebu wedi'i ddatganoli i Gymru

- Mae angen seilwaith modern a chynaliadwy ar Gymru fel sail i dwf economaidd a lles y bobl. Mae defnyddio a lleoli seilwaith digidol ledled Cymru yn hanfodol i gefnogi'r gwaith o sicrhau twf economaidd.

- Mewn rhannau o Gymru, yn arbennig yn yr ardaloedd gwledig lle mae'r boblogaeth yn wasgaredig ac yn fwy anodd cael atynt, mae'r gwasanaeth symudol yn wael iawn neu does dim gwasanaeth symudol ar gael o gwbl.

- Mae nifer o gynlluniau ar y gweill i wella cysylltedd band eang a symudol a chael lefel o gysylltedd sy'n diwallu anghenion mentrau busnes. Daeth rhai ohonynt i ben yn 2017 ac mae prosiectau yn yr arfaeth i ddilyn y rhain.

- Mae angen lleoli canolfannau data wrth ymyl cysylltedd digidol lled band uchel iawn a chyflenwad pŵer sylweddol. Mae angen cysylltedd cryf arnynt sy'n gofyn am fwy nag un cysylltiad.

- Bydd twf seilwaith telathrebu symudol ar hyd y coridorau trafnidiaeth yn bwysig er mwyn gallu ateb y galw am gysylltedd ar drenau ac mewn ceir, ond hefyd i gefnogi cynnyrch arloesol newydd fel ceir awtonomaidd.

- Mae'n debyg y bydd cyflwyno 5G yn arwyddocaol ar gyfer cynllunio. Gallai ehangu'r seilwaith telathrebu symudol arwain at osod llawer mwy o antenau

nag sydd ar gael ar hyn o bryd mewn ardaloedd trefol, er y bydd y rhain efallai yn llai o ran maint ac yn cymryd eu lle yn haws yn yr amgylchedd trefol, ar adeiladau er enghraifft.

- Mae angen hyrwyddo rhannau o Gymru, gan gynnwys Caerdydd ac Abertawe, fel canolfannau rhagoriaeth ddigidol fel y gallant fanteisio ar eu seilweithiau digidol newydd neu arfaethedig a nodir yn y Bargeinion Dinesig.

- Mae gan y broses gynllunio ran allweddol i'w chyflawni drwy helpu i ddarparu'r amodau cywir ar gyfer datblygu'r seilwaith digidol. Mae'r drefn hawliau datblygu a ganiateir a pholisi cynllunio yn allweddol yn hyn o beth, ac mae'r ddau yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

**Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?**
Mae angen i'r Fframwaith adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru o sicrhau bod darpariaeth symudol a band eang dibynadwy a chyflym ar gael i bob eiddo yng Nghymru. Mae angen iddo hefyd gydnabod bod seilwaith digidol yn hanfodol i'r economi, i wasanaethau cyhoeddus ac i les cymdeithasol y gymdeithas yn gyffredinol. Mae angen i'r Fframwaith gefnogi'r defnydd o seilwaith i gefnogi cysylltedd symudol a band eang, ac adlewyrchu natur y dechnoleg newydd sy'n newid yn gyflym, yn arbennig her 5G mewn ardaloedd trefol a gwledig.

Bydd y Fframwaith yn nodi ac yn esbonio dosbarthiad gofodol y seilwaith strategol sydd eisoes ar gael a'r seilwaith strategol arfaethedig. Bydd hefyd yn pennu'r gofynion gwahanol ledled Cymru ac yn disgrifio'r strategaethau sydd wedi cael eu datblygu i helpu i gyflwyno hyn yn genedlaethol. Yn ogystal, dylai'r Fframwaith geisio annog atebion lleol i fannau gwan neu fannau digyswllt.

| **Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - Seilwaith band eang a digidol** |
|---|
| Cefnogi'r gwaith o ddarparu seilwaith digidol a helpu i gyflawni amcan Llywodraeth Cymru o gael 100% o ddarpariaeth i wasanaethau band eang a thelathrebu ledled Cymru. |

# D Yr Economi

Ffyniant Economaidd
ac Adfywio

Economic Prosperity
and Regeneration

## D. Yr Economi (gan gynnwys twristiaeth, yr economi wledig ac amaethyddiaeth) - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

### Trosolwg

Mae economi lewyrchus yn allweddol i ffyniant a llesiant Cymru yn y dyfodol.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cynnwys cyfres o nodau ar gyfer cymdeithas lewyrchus. Dylai Cymru fod yn gymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas.

Mae gan y maes cynllunio ran bwysig i'w chwarae yn creu'r amodau cywir ar gyfer twf economaidd cynaliadwy ledled Cymru. Yn benodol, dylai'r system gynllunio sicrhau nad yw datblygu economaidd yn cael ei gyfyngu gan brinder tir, ei fod yn cael ei dywys at y lleoliadau mwyaf cynaliadwy, a'i fod yn cael ei gefnogi gan seilwaith modern ac effeithiol.

### Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

### Symud Cymru Ymlaen 2016-21

- Mae Symud Cymru Ymlaen [14] yn cynnwys nodau sy'n gysylltiedig â'r economi, i geisio:
- Hybu buddsoddiad, arloesi a chreu swyddi newydd
- Hyrwyddo canolfannau technoleg a chysylltiadau ag addysg uwch
- hybu twf gwyrdd
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu'r diwydiannau creadigol a thwristiaeth
- cyflwyno'r Bargeinion Dinesig i Gaerdydd, Abertawe a Gogledd Cymru
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu a gwella seilwaith, gan gynnwys ynni adnewyddadwy, telathrebu a chludiant

### Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol

Mae Ffyniant i Bawb yn esbonio sut bydd ymrwymiadau allweddol Symud Cymru Ymlaen yn cael eu cyflawni. Mae'n cyfeirio at gynllunio fel ysgogiad pwysig wrth weithredu'r meysydd blaenoriaeth sydd eu hangen er mwyn sicrhau ffyniant a llesiant. Mae'r nodau sydd â chysylltiadau â'r economi yn dod o dan yr adrannau Ffyniannus a Diogel, ac Unedig a Chysylltiedig, ac maent yn cynnwys:

- Economi yng Nghymru sy'n sicrhau ffyniant i unigolion ac i'n cenedl, gan gynnig cyfleoedd i bawb a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb.

- Cyflogaeth sy’n darparu siawns well o ran iechyd a bywyd.
- Twf sy'n cefnogi gwasanaethau o ansawdd a ffyniant i gymunedau.
- Twf o ran cynhyrchiant a mynd yn fwy cystadleuol.
- Datblygu sgiliau o ansawdd uchel, dinasoedd fel peiriannau twf, a'r seilwaith cywir yn ddigidol ac ar gyfer trafnidiaeth
- Cefnogi busnesau i weithredu’n gynaliadwy, creu amgylcheddau sy'n meithrin ar gyfer busnesau’r dyfodol, gan adeiladu ar adnoddau dynol, creadigol a naturiol Cymru, a chynyddu cadernid economaidd ac amgylcheddol.
- Cyflwyno model rhanbarthol o ddatblygu economaidd.
- Cefnogi arallgyfeirio gwledig.

## Cynllun Gweithredu ar yr Economi[15]

Mae'r Cynllun Gweithredu ar yr Economi yn gymorth i gyflawni Ffyniant i Bawb.

Drwy ymdrechion cydweithredol rhwng y sector cyhoeddus a'r sector preifat, ei nod yw:

- Cefnogi pobl a busnesau i hybu ffyniant.
- Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhanbarthol.
- Hybu twf cynaliadwy a gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd.
- Rhoi anogaeth i ddysgu a datblygu'r sgiliau cywir.
- Darparu seilwaith modern a chysylltiedig.

Mae’r Cynllun Gweithredu yn nodi nifer o heriau penodol; sef ymateb i Brexit a globaleiddio, a fydd yn effeithio ar gyfoeth a llesiant, mynd i’r afael â lefelau isel o gynhyrchiant ac arloesi sy’n effeithio ar gyflogau, mynd i'r afael â phrinder sgiliau a sgiliau anaddas oherwydd bod y cymwysterau anghywir gan unigolion, deall manteisio awtomeiddio a chynaliadwyedd, a mynd i'r afael â chanlyniadau'r newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd tra hefyd yn parhau’n gystadleuol.

## Tasglu ar gyfer Cymoedd y De ac ar gyfer Ein Cymoedd, Ein Dyfodol

Sefydlwyd Tasglu ar gyfer Cymoedd y De yn 2016 er mwyn datblygu cynllun i geisio creu swyddi o ansawdd da yn nes at gartrefi pobl, i wella sgiliau pobl ac i ddod â ffyniant i bawb.  Cafodd y Cynllun ‘Ein Cymoedd, Ein Dyfodol’[16] ei gyhoeddi yn 2017 i geisio cyflawni'r nodau hyn, ac mae’r cynllun yn seiliedig ar dri maes blaenoriaeth.

### Blaenoriaeth 1 - Swyddi o ansawdd da a'r sgiliau

Bydd y bwlch cyflogaeth rhwng Cymoedd y De a gweddill Cymru yn cael ei gau drwy greu swyddi newydd, diogel a chynaliadwy, gyda chefnogaeth y sgiliau cywir.  Bydd y buddsoddiad yn cael ei dargedu, a bydd hybiau strategol yn cael eu creu er mwyn adlewyrchu'r cyfleoedd a’r galw mewn ardaloedd penodol. Bydd y cymorth yn cael ei gyfeirio at yr economi sylfaenol a digidol, a busnesau newydd.  Manteisir ar

gyfleoedd i greu swyddi o fuddsoddiad seilwaith ym Metro De Cymru, yr M4 a throi'r A465 yn ffordd ddeuol. Dyma leoliadau'r hybiau:

- Pontypridd/Trefforest, i ganolbwyntio ar ddatblygiadau preswyl, swyddfeydd, diwydiannol a manwerthu
- Caerffili/Ystrad Mynach, Cwmbrân a Merthyr Tudful i ganolbwyntio ar ddatblygiadau preswyl, swyddfeydd a diwydiannol
- Castell-nedd, i ganolbwyntio ar ddatblygiadau diwydiannol, preswyl, digidol ac ynni.
- Glynebwy, i ganolbwyntio ar barc busnes technoleg ceir newydd, gyda chefnogaeth £100 miliwn o fuddsoddiad gan Lywodraeth Cymru dros 10 mlynedd gan greu hyd at 1500 o swyddi.
- Cefnogi cyflogwyr newydd a chyfredol ym Mlaenau Gwent i ddatblygu sgiliau.

### Blaenoriaeth 2 - Gwasanaethau cyhoeddus gwell

Bydd gwasanaethau cyhoeddus yn gweithio gyda'r trydydd sector a chymunedau lleol i ymateb i anghenion pobl. Bydd ffyrdd mwy iach o fyw, llesiant corfforol a meddyliol gwell, a lleihau anghydraddoldebau iechyd yn cael eu cefnogi. Bydd cludiant cyhoeddus fforddiadwy ac integredig yn gymorth i fynd â phobl i'r lle maen nhw angen. Gwella'r canlyniadau iechyd i bobl plentyn, a chau'r bwlch cyrhaeddiad.

### Blaenoriaeth 3 - Fy nghymuned i

Bydd Parc Tirwedd y Cymoedd yn cael ei sefydlu i helpu cymunedau lleol i fanteisio i'r eithaf ar y defnydd o adnoddau naturiol a threftadaeth, a buddsoddir mewn seilwaith gwyrdd. Bydd canolfannau trefi'n cael eu hyrwyddo fel mannau bywiog, gyda chymysgedd o ardaloedd ar gyfer tai, manwerthu, busnesau ac ardaloedd gwyrdd, a rhoddir ystyriaeth hefyd i ddefnyddio meysydd parcio am ddim. Bydd cyfleoedd newydd ar gyfer twristiaeth yn cael eu hyrwyddo, a bydd prosiectau'n canolbwyntio ar y tirwedd, treftadaeth a phobl. Bydd cynlluniau ynni adnewyddadwy cymunedol yn cael eu cefnogi, gan fynd i'r afael â thlodi tanwydd.

## Strategaethau perthnasol eraill

- Dinas-Ranbarthau[17]
- Cyflawni Cymru Ddigidol[18] a Chynllun Gweithredu Ffonau Symudol[19]
- Ardaloedd Menter[20]
- Gwyddoniaeth i Gymru [21] ac Arloesi Cymru[22]


## Beth yw prif dueddiadau'r dyfodol?

Mae'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol 2017[23] yn cynnwys y sylwadau a ganlyn.

- Ers 2008, mae'r cynhyrchiant arafach wedi lleihau'r cyfraddau twf: cafwyd effaith arbennig ar y DU a Chymru.
- Mae'r twf economaidd ledled y gwledydd datblygedig wedi dangos symudiad tuag at economi sy'n seiliedig ar wasanaethau; mae gwaith gweithgynhyrchu wedi bod yn lleihau; mae'r gostyngiad wedi bod yn fwy yn y DU nag mewn llawer o wledydd eraill.  Yng Nghymru, cafwyd effaith arbennig ar y diwydiannau trwm a chloddiol.

### Ffigur D1 – Gweithgynhyrchu fel cyfran o GDP mewn rhai gwledydd

Cyn y Dirwasgiad Mawr, roedd cyfran gweithgynhyrchu'r Cynnyrch Domestig Gros yn disgyn yn y DU ac yng Nghymru, fel ag yn y gwledydd datblygedig eraill; roedd y duedd hon mewn cyflogaeth yn fwy amlwg fyth (yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn awtomeiddio):




Ffynhonnell: Banc y Byd

- Yn 2017, roedd allforion i'r UE yn 67.4 y cant o allforion Cymru.  £15.9 biliwn oedd allforion Cymru yn y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2017, sef £2,391 yn fwy, a'r codiad yng ngwledydd yr UE oedd £1,272 (15.4 y cant). Gallai Brexit achosi goblygiadau i'r ffigyrau hyn yn y dyfodol.
- Mae gan Gymru botensial mawr o ran cynhyrchu trydan o ffynonellau adnewyddadwy; yn 2015, daeth 20% o ynni Cymru o ffynonellau adnewyddadwy.
- Defnyddir mwy ar y rheilffyrdd, ond bydd cerbydau preifat yn parhau'n brif ddull trafnidiaeth yng Nghymru dros y tymor byr i'r tymor canolig.
- Gallai datblygu cerbydau awtonomaidd a thrydan/hybrid dros y 15 mlynedd nesaf olygu goblygiadau mawr i'r system drafnidiaeth a'r seilwaith gwasanaethu.

- Mae seilwaith band eang a thelathrebu yn tyfu’n gyflym, ond mae’r topograffi a’r boblogaeth wasgaredig yn rhwystro darpariaeth lawn mewn rhai ardaloedd.
- Yng Nghymru, mae siawns pobl o gyflogaeth yn cael ei yrru gan eu sgiliau yn fwy na’r lle maen nhw’n byw.

## Beth yw’r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?


Dyma’r prif faterion sy'n deillio o’r prif ffynonellau tystiolaeth.

## Yr Economi

- Mae perfformiad GYC Cymru, cynhyrchiant economaidd y pen, cyfraddau cyflogaeth ac enillion yn is na'r cyfartaledd yn y DU.
- Mae Brexit yn debygol o achosi canlyniadau pwysig i economi Cymru, yn enwedig yn y sector gwledig.
- Mae lefel uwch na'r cyfartaledd o amddifadedd yng Nghymoedd y De ac yn rhai o drefi arfordir y Gogledd (o gymharu â Chymru a’r DU).


### Ffigur D2 – Cyfraddau amddifadedd a pherfformiad economaidd

Yn y tymor canolig, mae’r economi yng Nghymru yn dilyn llwybr economi ehangach y DU ar y cyfan (gydag amrywiadau); mae ysgogwyr polisi Llywodraeth Cymru yn gweithredu’n bennaf dros yr hirdymor:




Gan ystyried y dangosyddion economaidd “yn y rownd”, mae Cymru wedi cadw i fyny â’r DU ar y rhan fwyaf o’r dangosyddion ers y dirwasgiad (ar ôl dirywiad amlwg yn y 1990au), ac mae wedi perfformio’n well ar y gyfradd gyflogaeth

### Ffigur D3 – Cyfraddau amddifadedd



- Mae’r rhwymedigaethau sydd ar Gymru o ran y newid yn yr hinsawdd yn her ac yn gyfle i ddiwydiant a busnes.
- Mae bod yn gystadleuol, arloesi a datblygiadau technolegol yn hanfodol i economi fodern a ffyniannus yng Nghymru.
- Mae’r cyfyngiadau ar wariant cyhoeddus yn golygu mwy o ofynion ar wasanaethau cyhoeddus ac ar welliannau i rai mathau o seilwaith.
- Gallai mynediad cyfyngedig at gyllid gyfyngu ar dwf rhai busnesau bach a chanolig yng Nghymru. Efallai y bydd Banc Datblygu Cymru yn gymorth i fynd i’r afael â’r mater.
- Mae lefel uchel o anweithgarwch economaidd mewn sawl rhan o Gymru, lle mae lefel isel o gymwysterau neu ddim cymwysterau, a lefel isel o gyfleoedd am gyflogaeth. Mae angen cynyddu addysg a sgiliau ar bob lefel, ac mae’r rheini’n hanfodol i gefnogi economi sy’n tyfu ac yn ffynnu.

### Arbenigo ac Arloesi mewn Sectorau

- Mae ymchwil a datblygu yn ysgogi arloesedd, ac mae hynny’n bwysig ar gyfer twf economaidd; mae angen i Gymru gofleidio hyn a symud tuag at economi sy’n fwy seiliedig ar wybodaeth.
- Mae angen i Gymru fanteisio a gwneud ymyriadau mewn sectorau allweddol sy’n seiliedig ar wyddoniaeth, arloesi a thechnoleg er mwyn cymell buddsoddiadau. Er enghraifft, gwyddorau bywyd, ynni a’r amgylchedd, deunyddiau a pheirianneg, a TG, awyrofod a’r diwydiannau creadigol. Mae arbenigeddau mewn sectorau arbennig yn nodweddion mewn gwahanol rannau o Gymru, a dylai'r nodweddion hyn barhau i gael eu hyrwyddo a’u datblygu, er enghraifft, drwy Ardaloedd Menter a mentrau eraill.

### Seilwaith

- Mae seilwaith modern yn rhywbeth allweddol i hybu’r economi: mae angen seilwaith modern a chynaliadwy ar Gymru, i fod yn sail i dwf economaidd a lles pobl. Mae hyn yn cynnwys cludiant, TGCh, ynni (gan gynnwys y grid) a chyfleustodau eraill.
- Mae seilwaith band eang a thelathrebu yn hanfodol er mwyn sicrhau manteision technoleg ddigidol ac i gefnogi economi fodern a ffyniannus, gwasanaethau cyhoeddus, ar gyfer cysylltiadau cymdeithasol a chynnwys pobl. Mae angen seilwaith modern mewn ardaloedd trefol a gwledig fel nad oes cyfyngiad ar dwf economaidd. Rhaid mynd i’r afael â bylchau yn y ddarpariaeth cysylltiadau digidol.
- Mae potensial mawr gan Gymru i gynhyrchu ynni adnewyddadwy, manteisio ar gyfleoedd economaidd, a thrwy hynny gyfrannu at gyflawni ymrwymiadau o ran y newid yn yr hinsawdd a chynaliadwyedd.

### Gwledig

- Rhaid i'r sector amaeth fod yn gallu ymateb i ganlyniadau Brexit.
- Er mwyn i ardaloedd gwledig fod yn gallu cadw pobl, yn enwedig pobl ifanc, ac i dyfu a ffynnu mewn ffordd gynaliadwy, mae angen i bolisïau gefnogi datblygiad economaidd a chreu swyddi, diogelu'r amgylchedd, a darparu gwasanaethau a seilwaith modern.
- Er bod amaethyddiaeth yn weithgaredd economaidd pwysig mewn ardaloedd gwledig, mae twristiaeth a dulliau eraill o arallgyfeirio yn ysgogwyr economaidd allweddol hefyd, ac mae angen eu cefnogi yn enwedig oherwydd yr ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit.
- Mae Ardaloedd Twf Lleol (Powys[24] a Dyffryn Teifi[25]) yn cynnwys cyfres o welliannau i fynd i'r afael â materion gwledig dros ardal eang.

### Cynllunio

- Rhaid i Gymru sicrhau nad yw'r economi'n cael ei chyfyngu gan brinder tir ar gyfer cyflogaeth, a bod digon o dir yn cael ei ddyrannu yn y lleoliadau mwyaf cynaliadwy. Rhaid i safleoedd fod wedi'i hintegreiddio'n dda gyda seilwaith, wedi'u lleoli o fewn neu wrth ymyl canolfannau trefol a gwledig, a lle bo'n briodol at y llefydd lle mae pobl yn byw. Bydd yn aml o fantais i glystyru technoleg a deunyddiau arloesol a/neu eu lleoli'n agos at sefydliadau academaidd.

- Dylai Awdurdodau Cynllunio ddatblygu strategaethau a pholisïau sy'n seiliedig ar bolisi cenedlaethol a gofynion lleol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion economaidd eu hardaloedd.

### Materion Rhanbarthol

- Mae llwyddo i ddarparu Dinas-Ranbarthau a Thwf ledled Cymru yn bwysig i dwf economaidd Cymru. Mae pob un wedi'u nodweddu gan yr angen am well seilwaith a chysylltedd (yn enwedig systemau cludiant ledled y rhanbarth neu fetros), arbenigo ac arloesi economaidd, creu cyflogaeth a datblygu sgiliau.

- Mae gan rai rhannau o Gymru gysylltiadau agos â sectorau twf allweddol. Mae gan Ogledd Cymru gysylltiad arbennig ag ynni, peirianneg uwch ac awyrenneg, ac mae gan Dde Cymru gysylltiad â gwasanaethau cyllid a phroffesiynol, y diwydiannau creadigol, peirianneg uwch ac yn fwy diweddar buddsoddiad technoleg uchel blaenllaw arfaethedig (er enghraifft y clwstwr lled-ddargludyddion yng Nghasnewydd), sy'n creu cysylltiadau â sefydliadau academaidd ac yn cefnogi'r gwaith o glystyru cwmnïau. Mae ardaloedd

menter ledled Cymru yn lleoliadau ar gyfer sectorau twf mewn diwydiannau allweddol.

- Byddai cynlluniau ynni'r llanw arfaethedig yn Abertawe, Caerdydd, Casnewydd a Bae Colwyn yn gwneud cyfraniadau sylweddol at anghenion ynni adnewyddadwy Cymru neu'r DU yn y dyfodol, gyda manteision i gadwyni cyflenwi lleol ac anghenion cyflogaeth.

- Mae angen i leoliad datblygiadau economaidd a swyddi adlewyrchu'r prif seilwaith cludiant, y prif ganolfannau poblogaeth a'r safleoedd cyflogaeth strategol sydd wedi'u dyrannu mewn cynlluniau datblygu. Mae'r M4, coridorau Blaenau'r Cymoedd a'r A55, y systemau metro arfaethedig, trydaneiddio'r rheilffyrdd a hybiau megis Maes Awyr Caerdydd yn allweddol i batrwm twf ac adfywio. Mae cysylltiadau â Lloegr a materion trawsffiniol yn bwysig hefyd, a rhaid ymdrin â'r rheini.

### Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Prif nodau strategol Llywodraethu Cymru ar gyfer yr economi yw cynyddu cynhyrchiant, lledaenu'r cyfleoedd a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, codi lefelau sgiliau a chymwysterau a chreu amgylchedd i helpu i ddatblygu busnesau cynaliadwy, arloesol a chystadleuol, a thrwy hyn sicrhau ffyniant i unigolion, cymunedau a'r genedl.  Mae datblygu seilwaith economaidd modern, effeithiol a chynaliadwy, megis cludiant, ynni a thelathrebu, yn hanfodol i'r gwaith o gyflawni hyn.

Bydd y Fframwaith yn nodi ac yn esbonio dosbarthiad gofodol y mentrau a'r datblygiadau economaidd strategol presennol ac arfaethedig, y seilwaith a'r prif gyfleusterau, a gallai sefydlu lleoliadau cynaliadwy ar gyfer twf economaidd ledled Cymru.

Bydd y dadansoddiad gofodol sy'n cael ei ddarparu gan y Fframwaith yn cydnabod y gofynion economaidd gwahanol ledled Cymru a bydd yn darparu arweiniad i helpu i gyflawni hyn.

| **Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - Ffyniant economaidd ac adfywio** |
|---|
| Darparu cyfarwyddyd strategol ar gyfer darparu seilwaith i gefnogi ffyniant economaidd i bawb a thwf gwyrdd.<br><br>Cefnogi'r sectorau cenedlaethol a sylfaenol; a thwf ac arloesi mewn economi carbon isel. |

Cefnogi economïau rhanbarthol cryf.

Mynd i'r afael ag anghydraddoldeb, a darparu arweiniad strategol i fentrau adfywio.

## Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - Cymru Wledig

Ei gwneud yn bosibl i ddarparu swyddi, gwasanaethau a seilwaith i gryfhau cymunedau gwledig a chadw pobl ifanc.

Cefnogi cadernid ac arallgyfeirio yn yr economi wledig.

## Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - Dinas-Ranbarthau a Bargeinion Twf

Cefnogi'r gwaith o gyflwyno bargeinion dinas-ranbarthau a bargeinion twf ledled Cymru.

# E Tai

## E. Tai - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

### Trosolwg

Tai o ansawdd da yw asgwrn cefn cymunedau ac maent yn sail i unigolion a theuluoedd allu llwyddo ymhob agwedd ar eu bywydau. Hefyd, mae angen i gartrefi fod mewn lleoliad da, yn fforddiadwy ac yn ynni-effeithlon. Swyddogaeth y system gynllunio yw hwyluso’r gwaith o ddarparu tai ar gyfer y farchnad a thai fforddiadwy er mwyn diwallu anghenion lleol, yn enwedig drwy ganfod cyflenwad tir i gefnogi’r gwaith o ddarparu tai.

### Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Mae ‘Symud Cymru Ymlaen’ yn cynnwys ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth i ddarparu 20,000 yn ychwanegol o gartrefi fforddiadwy erbyn 2021. Wrth gyrraedd y targed hwn, y bwriad yw cefnogi amrywiaeth o ddeiliadaethau tai drwy nifer o gynlluniau sy’n bodoli eisoes a rhai sy’n dod i'r amlwg.

Yn benodol, bydd Llywodraeth Cymru yn gwneud y canlynol:

- Parhau i gefnogi Cymorth i Brynu - Cymru, gyda’r nod o ddarparu 6,000 o gartrefi newydd fel rhan o'r targed i ddarparu 20,000 o gartrefi fforddiadwy.
- Parhau i gefnogi'r gwaith o ddarparu cartrefi ar rent fforddiadwy ymhob rhan o Gymru;
- Cyflwyno cynllun Rhentu i Brynu;
- Ehangu'r cynllun Cymorth i Brynu i dargedu ardaloedd lle mae perchnogaeth ar dai yn arbennig o anfforddiadwy;
- Cefnogi dyluniadau newydd ac arloesol ar gyfer tai er mwyn ateb heriau megis angen dybryd am dai, tlodi tanwydd, newid yn yr hinsawdd a newid demograffig;
- Gweithio gydag awdurdodau lleol i ddechrau adeiladau tai cyngor yn gyflym ac wrth raddfa;
- Datgloi’r potensial sydd gan fusnesau bach a chanolig i adeiladu tai drwy hyrwyddo Cronfa Datblygu Eiddo Cymru;
- Cymell darparwyr tai i adeiladu cartrefi sy'n ymateb i heriau poblogaeth sy’n heneiddio; a
- Gwella effeithlonrwydd ynni tai i gyfrannu at dwf cynaliadwy, gan frwydro yn erbyn y newid yn yr hinsawdd a gwella iechyd.

## Beth yw prif dueddiadau'r dyfodol?


Canfuwyd nifer o dueddiadau a allai effeithio ar dai.

Rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd yn tyfu'n gynt na'r boblogaeth yn gyffredinol (oherwydd maint llai aelwydydd), a rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd un person yn cynyddu fwy na 30% yn yr 20 mlynedd nesaf. Yn ôl y tueddiadau diweddaraf o ran codi tai, mae'n bosibl na fydd nifer yr eiddo a fydd ar gael yn cyfateb i'r cynnydd yn nifer yr aelwydydd.

### Ffigur E1 - Newidiadau a ragwelir yn y boblogaeth a chartrefi, 2014-2036

Bydd newid demograffig yn dylanwadu ar y galw am dai hefyd, yn enwedig pan gaiff ei gyfuno â newidiadau yng nhyfansoddiad aelwydydd.
Yng Nghymru, rhagwelir y bydd nifer yr aelwydydd (ar sail 2014) yn tyfu'n gyflymach na'r boblogaeth rhwng 2014 a 2039.


**Twf poblogaeth ac aelwydydd wedi'u mynegeio yng Nghymru, 2014-2039**




Ffynhonnell: StatsCymru

Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru yn cynyddu rhyw 5% dros yr ugain mlynedd nesaf. Dros yr un cyfnod, mae disgwyl i ganran y bobl dros 65 oed gynyddu o ryw 20% i ryw 25% o boblogaeth Cymru.

### Ffigur E2 - Newid yn y boblogaeth, fesul grŵp oedran




O ganlyniad i'r newid yn yr hinsawdd, mae risgiau llifogydd a newidiadau arfordirol i gymunedau, busnesau a seilwaith, a gallent leihau'r tir sydd ar gael i'w ddatblygu.

Gallai gadael yr Undeb Ewropeaidd darfu ar y tueddiadau a nodwyd yn gysylltiedig â thai. Mae'n debygol y bydd y broses hon yn cael effaith sylweddol ac eang ar Gymru, yn enwedig ar dwf economaidd a mudo, gan effeithio ar yr angen am dai.

### Beth yw'r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?

Wrth fynd ati'n strategol i lywio darpariaeth tai newydd, mae angen i'r Fframwaith ganfod lleoliadau ar gyfer twf sy'n gysylltiedig ag ardaloedd ar gyfer twf economaidd (e.e. Ardaloedd Bargenion Dinesig) ac â seilwaith cysylltedd arfaethedig (e.e. Metro De Cymru). Efallai y bydd angen hefyd ystyried y gofynion gwahanol ar gyfer datblygiadau tai mewn ardaloedd trefol a gwledig, ac effeithiau'r rheini.

Gallai demograffeg sy'n newid gael goblygiadau gofodol oherwydd y galw cynyddol am wasanaethau hygyrch yn cael eu cefnogi gan seilwaith cysylltiol. Felly hefyd, mae disgwyl i'r cynnydd a ragwelir mewn ymfudo net (yn bennaf o'r tu mewn i'r DU) gael yr effaith fwyaf mewn ardaloedd trefol.

### Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Nod strategol gyffredinol Llywodraeth Cymru yw cynyddu'r ddarpariaeth cartrefi i ddiwallu anghenion cymunedau ledled Cymru a chynorthwyo i wneud hyn drwy amrywio’r dulliau cyflawni. Drwy ganfod ardaloedd ar gyfer twf economaidd, darpariaeth seilwaith a chyfleusterau allweddol, bydd y Fframwaith yn sefydlu lleoliadau cynaliadwy ar gyfer darpariaeth tai sylweddol.

Bydd y Fframwaith yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer lleoliad tai, gan helpu i gynyddu'r sicrwydd ar gyfer darparwyr tai a rhoi cyfleoedd i amrywiaeth ehangach o adeiladwyr tai (gan gynnwys busnesau bach a chanolig ac opsiynau adeiladu eich hunain) i gyfrannu at y gwaith o ddarparu cartrefi newydd.

Bydd y dadansoddiad gofodol sy’n cael ei ddarparu gan y Fframwaith yn cydnabod bod gofynion gwahanol ledled Cymru, a bydd angen adlewyrchu hyn yn y math o dai ac yn eu lleoliad.

| **Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - Tai** |
| --- |
| Darparu cyfarwyddyd strategol ar gyfer tai fforddiadwy a thai ar gyfer y farchnad, wedi’u cyplysu â seilwaith cysylltedd, cyfleusterau allweddol a meysydd twf. |

# F Adnoddau Naturiol - Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Adnoddau Naturiol
Natural Resources

## F. Adnoddau Naturiol - Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

### Trosolwg

Mae adnoddau naturiol (aer, tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a phridd) yn sail i'n llesiant (ffyniant, iechyd, diwylliant a hunaniaeth), ac rydyn ni'n dibynnu ar adnoddau naturiol o ansawdd uchel i ddarparu ein bwyd, ein dŵr glan a'n hawyr glân.

Mae penderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn y system gynllunio yn gallu cael effaith anuniongyrchol ar yr amgylchedd yn ei gyfanrwydd, nawr ac am sawl cenhedlaeth i ddod; mae'r modd y mae'r system gynllunio'n gwneud y penderfyniadau hynny yn hanfodol er mwyn gallu meithrin cadernid yn ein hadnoddau naturiol. Yn y cyd-destun hwn, gall y system gynllunio hwyluso'r gwaith o ganfod cyfleoedd i reoli a diogelu ein hadnoddau naturiol.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn canolbwyntio ar feithrin cadernid yn ein hecosystemau ac ar gydnabod y manteision y maent yn eu rhoi os ydyn ni'n eu rheoli mewn ffordd glyfrach; drwy ddefnyddio egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yr ydyn ni'n gweithio i gyflawni hyn.

### Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

### Polisi Adnoddau Naturiol Llywodraeth Cymru

Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn nodi'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy er mwyn gwneud y gorau o'u cyfraniad at gyrraedd y nodau yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a chyflawni'r ymrwymiadau rhyngwladol a chenedlaethol, sef:

- Darparu datrysiadau sy'n seiliedig ar natur,
- Cynyddu effeithlonrwydd ynni ac adnoddau adnewyddadwy,
- Cael dull sy'n seiliedig ar le

Mae'r Polisi'n dweud bod y polisïau hyn gyda'i gilydd yn mynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu adnoddau naturiol Cymru ac yn gwireddu'r cyfleoedd lawer y maent yn eu darparu ar gyfer llesiant a ffyniant Cymru.

### Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol

Mae swyddogaeth allweddol adnoddau naturiol Cymru o ran cyflawni'r Strategaeth Genedlaethol wedi'i hamlinellu o dan dri o'r pedwar thema allweddol isod:

*Ffyniannus a diogel:* Byddwn yn meithrin ffyniant mewn ffordd sy'n cefnogi ac yn cynnal amgylchedd naturiol prydferth Cymru, sy'n sicrhau bod y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol yn parhau i elwa, ac sy'n gwneud cyfraniad pwysig i'r frwydr yn erbyn y newid yn yr hinsawdd. *Ein nod yw manteisio ar y cyfleoedd economaidd a gynigir gan adnoddau naturiol Cymru, gan feithrin eu cydnerthedd i gefnogi cenedlaethau'r dyfodol.*

*Iach ac egnïol:* Mae gan y llywodraeth hefyd rôl bwysig i'w chwarae yn gwella amgylcheddau lleol a'i gwneud yn haws i bobl wneud mwy o ymarfer corff. Byddwn yn helpu pobl i fabwysiadu ffyrdd iach o fyw o oedran cynnar. Gan fanteisio ar adnoddau naturiol helaeth Cymru, byddwn ni'n cefnogi ac yn annog cynnydd sylweddol yng ngweithgarwch corfforol pobl. Rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd yr amgylchedd ehangach (gan gynnwys ansawdd yr aer a mynediad at fannau gwyrdd) i iechyd da, llesiant, a mwy o weithgarwch corfforol. *Ni ellir gorbwysleisio cyfraniad yr amgylchedd at iechyd da.*

*Unedig a chysylltiedig:* Ein nod yw creu gwlad lle gall pobl ymfalchïo yn eu cymunedau, lle gall pobl chwarae rhan weithredol yn siapio eu hamgylchedd lleol. Byddwn ni'n gweithio gyda chymunedau i helpu i gynnal cyfleusterau lleol sy'n dod â phobl at ei gilydd, gan gynnwys mannau gwyrdd.

## Beth yw prif dueddiadau'r dyfodol?

Canfuwyd nifer o dueddiadau allweddol yn y dyfodol a allai effeithio ar adnoddau naturiol.

Bydd bioamrywiaeth a chynefinoedd o dan fwy fyth o bwysau, gan adlewyrchu'r sefyllfa yn fyd-eang. Er bod gwelliannau yn y blynyddoedd diweddar, yn enwedig o ran ansawdd dŵr a rhai elfennau o ansawdd yr aer, mae llawer o'n hadnoddau naturiol a chadernid ecosystemau Cymru yn parhau i ddirywio (Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2016)[26]. Mae'n debygol nad yw ecosystemau ledled Cymru yn ddigon cadarn rhag yr heriau sy'n eu hwynebu, a gallai hyn effeithio ar eu gallu i ddarparu gwasanaethau a manteision yn y dyfodol.


Mae'r tueddiadau posibl ar gyfer anifeiliaid, planhigion ac organebau eraill yn amrywio'n fawr rhwng rhywogaethau, gyda rhai rhywogaethau'n cynyddu a rhai yn gostwng. Fodd bynnag, am i lawr y mae'r tueddiadau cyfun tymor hir ymysg rhywogaethau.

Mae carbon pridd yn sefydlog ers 30 mlynedd mewn tir wedi'i wella. Mae cynnydd diweddar yng ngharbon pridd mewn coetir hyd at 2007 wedi sefydlogi erbyn hyn ac ni chanfuwyd unrhyw gynnydd pellach. Fodd bynnag, canfuwyd gostyngiad sylweddol mewn carbon pridd mewn tir cynefin dros y 10 mlynedd diwethaf, ac mae angen gwaith pellach i ganfod rhesymau posibl dros hyn. Mae asidedd pridd wedi parhau i ostwng mewn tir cynefin a choetir, gan adlewyrchu'r gostyngiad mewn gwaddodiad asidaidd dros y 3 degawd diwethaf. Ond, mae asidedd pridd yn

cynyddu eto mewn tir wedi'i wella, gan adlewyrchu efallai y lefelau isel o gyfyngiadau amser sydd eu hangen i gynnal amodau'r pridd o dan reolaeth ddwys. Mae lefelau nitrogen pridd yn sefydlog mewn tir sydd wedi'i wella a choetir, er bod gostyngiad a welwyd yn ddiweddar mewn nitrogen pridd mewn tir cynefin yn debygol o fod yn llesol i lystyfiant brodorol.

Mae'r tueddiadau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd yn pwyntio at dymheredd uwch a phwysau cynyddol o'r herwydd ar y cynefinoedd, y bioamrywiaeth a'r ecosystemau y mae pob un ohonom yn dibynnu arnynt, yn ogystal â mwy o risg o lifogydd.

# Amgylchedd




© Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2018.
Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/112/17.18
Ffynhonnell ddata: Cyfoeth Naturiol Cymru, 2018
Mawrth 2018

### Beth yw'r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?

Wrth fynd ati'n strategol i lywio cynlluniau haen isaf ar gyfer meithrin cadernid yn y rhwydweithiau ecolegol a gweithredu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, dylai'r Fframwaith wneud y canlynol:

- darparu cyfleoedd ar gyfer canfod clustogfeydd bras/coridorau/cerrig camu ar gyfer cadernid a darparu manteision lluosog,
- mapio safleoedd dynodedig allweddol sy'n darparu golwg lefel uwch o faint rhwydweithiau ecolegol a dangosydd o'r cysylltedd rhyngddynt,
- ystyried rôl a swyddogaeth ymyl safleoedd aneddiadau yn yr ymgais i feithrin cadernid,
- hybu camau sy'n creu cynefinoedd ar raddfa dirweddol,
- darparu cyfleoedd i adfer neu greu cynefinoedd, ac
- ystyried ac ymaddasu ar gyfer gwahanol swyddogaethau cynefinoedd gwledig a dinesig wrth feithrin cadernid.

Dylai'r system gynllunio ganfod cyfleoedd i wella cadernid rhwydweithiau ecolegol, a gall gael dylanwad arbennig o ran mynd i'r afael â maint a chysylltedd rhwydweithiau a cheisio gwelliannau o ran amrywiaeth.

### Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Nod strategol cyffredinol Llywodraeth Cymru yw diogelu'r asedau bioamrywiaeth sydd gennym eisoes a cheisio cyfleoedd i greu ac adfer cynefinoedd er mwyn creu rhwydweithiau ecolegol cadarn. Dylai hyn fod yn rhan annatod o ddulliau cynllunio'r Fframwaith.

Gall y Fframwaith

1. Diogelu safleoedd dynodedig ac asedau bioamrywiaeth sydd gennym eisoes rhag effeithiau sy'n peryglu'n uniongyrchol gadernid rhwydweithiau ecolegol
2. Gwella'r cysylltedd rhwng cynefinoedd (o bob math) ac annog y gwaith o greu ac adfer cynefinoedd, a hynny drwy fecanweithiau fel clustogfeydd, coridorau a cherrig camu.
3. Diogelu safleoedd dynodedig ac asedau bioamrywiaeth sydd gennym eisoes, a hynny drwy leihau effeithiau datblygiad yn ehangach yn gymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac ecolegol.

**Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - gweler tudalen 55**

# F Adnoddau Naturiol – Yr Economi Gylchol

Adnoddau Naturiol

Natural Resources

# F. Adnoddau Naturiol – Yr Economi Gylchol - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

### Trosolwg

Mae Economi Gylchol yn ceisio cyfyngu ar y defnydd o adnoddau y mae pen draw iddynt gan wneud defnydd gwell o adnoddau sydd yn y system ar hyn o bryd.

### Pam mae hyn yn fater cenedlaethol pwysig?

Mae angen sicrhau dewisiadau sy'n defnyddio adnoddau yn effeithlon fel rhan o gynnig a gwneud penderfyniadau yng nghyswllt datblygu, a dylai'r rhain ystyried cadernid yn ehangach - ecosystemau, cadernid cymdeithasol (rhesymau iechyd a llesiant) ac economaidd (swyddi a ffyniant).

Yn ôl Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru[27], gallai mabwysiadu arferion Economi Gylchol yn y sectorau adeiladu ac amgylchedd adeiledig yng Nghymru arwain at fudd o tua £1 biliwn bob blwyddyn o 2035 ymlaen. Mae'r £1 biliwn bob blwyddyn yn gynnydd o 12.5% yn nhrosiant sector amgylchedd adeiledig Cymru ac yn cynhyrchu 7,300 o swyddi (gros).

Gallai rheoliadau cynllunio ac adeiladu annog datblygiad i fanteisio i'r eithaf ar ddefnydd o adnoddau, gan gefnogi defnyddio deunyddiau eilaidd/wedi'u hailgylchu a sgil-gynhyrchion a chyfyngu ar ddefnyddio adnoddau y mae pen draw iddynt a gwneud defnydd gwell o adnoddau sydd yn y system ar hyn o bryd.

### Beth yw rôl y system gynllunio?

Gall y system gynllunio gyfrannu at hyrwyddo effeithlonrwydd adnoddau a gwella cylcholrwydd. Fodd bynnag, mae angen trawsnewidiadau ehangach o ran rhwystrau deddfwriaethol, meddylfryd a newidiadau mewn ymddygiad ymysg arferion gwahanol sectorau, y gadwyn gyflenwi a materion yn y farchnad a chyfrifoldeb cynhyrchwyr. Bydd angen mynd i'r afael â phob un ohonynt i symud tuag at gylcholrwydd gwirioneddol.

### Lle mae Cymru arni

Mae Cymru yn perfformio'n dda o ran ailgylchu, gan gyrraedd targed 2019/20 sef ailgylchu 64% o'i gwastraff 4 blynedd yn gynnar. Mae targedau llym yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff i leihau gwastraff gweddilliol, ailgylchu/compostio 70% o wastraff ar draws pob sector a chapio ynni o wastraff ar 30% erbyn 2025.

Fodd bynnag, nid yw'r cylch yn cael ei gau. Mae yna faterion o ran seilwaith yn ogystal â gweithgynhyrchu ac ailgynhyrchu ac mae angen datblygu saernïaeth y gadwyn gyflenwi ymhellach. Er enghraifft, nid oes darpariaeth ar hyn o bryd ar gyfer storio priddoedd dros dro sy'n cael eu cymryd o waith ailbroffilio ar safleoedd tai y gellid eu defnyddio wedyn ar gyfer prosiectau yn y dyfodol yn hytrach na defnyddio deunyddiau newydd.

### Beth sy'n ein cymell i gyrraedd yno?

Mae'r targedau gwastraff yn Tuag at Ddyfodol Diwastraff, y Cytundeb Newid Hinsawdd COP21, llythyr diweddar Ysgrifennydd y Cabinet at Brif Swyddogion Cynllunio (Hydref 2017) ynglŷn â thargedau ynni a'r angen i ddatgarboneiddio i gyd yn ein gyrru i gyfeiriad yr angen i fabwysiadu egwyddorion yr economi gylchol.

Mae Cymru yn 3ydd drwy'r byd o ran cyfraddau ailgylchu uchaf ac mae awydd i gynnal a gwella hyn gyda chydnabyddiaeth bod disgwyl i newid yn yr hinsawdd barhau.

### Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

### Ffyniant i Bawb: y strategaeth genedlaethol

Mae Ffyniant i Bawb yn nodi sut mae gennym enw da o ran codi cyfraddau ailgylchu, gan roi Cymru ar y brig yn y DU, yn ail yn Ewrop ac yn drydydd yn y byd. Mae'n nodi hefyd bod disgwyl i'r newid yn yr hinsawdd barhau, ac mae hynny'n golygu bod yn rhaid i ni leihau allyriadau carbon ymhellach, gan fynd ati i reoli'r peryglon i iechyd, i lesiant ac i gymunedau yn sgil y newid yn yr hinsawdd.

### Polisi Adnoddau Naturiol


Mae'r Polisi Adnoddau Naturiol yn argymell symud at economi fwy cylchol. Mae'n disgrifio sut mae gan y broses o symud at economi sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau ran hanfodol i'w chwarae yn nhwf gwyrdd Cymru. Gall y Fframwaith hwyluso'r broses hon.

### Beth yw prif dueddiadau'r dyfodol?

Mae'r Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol yn dweud bod Cymru'n perfformio'n dda o ran ailgylchu, gan ailgylchu 60%[28] o wastraff dinesig yn 2015/16. Nid yw'r adroddiad yn ymdrin â mwynau a'r economi gylchol, a phrin iawn yw'r cyfeiriad at wastraff. Mae'n nodi bod "cynnydd da mewn lleihau gwastraff yng Nghymru, ond mae mwy i'w wneud." Mae hefyd yn darparu rhywfaint o wybodaeth am dueddiadau rheoli gwastraff rhwng 2000/1 a 2013.

## Ffigur F1 - Rheoli gwastraff yng Nghymru

Tueddiadau rheoli gwastraff 2000/1–2013. Dangosir cyflenwadau gwastraff mewn cilodunelli fesul math o safle yng Nghymru. Mae'r duedd yn gwella ar y cyfan.





## Beth yw'r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?

### Sicrhau cyflenwad o ddeunyddiau a chynhyrchion ar gyfer anghenion y gymdeithas

Mae'r cyflenwad o ddeunyddiau ar gyfer y sector adeiladu yn allweddol ar gyfer cynllunio, o ran rhoi cyfarwyddyd echdynnu a gweithrediadau cynhyrchu a seilwaith gwastraff (gan gynnwys cyfleusterau ailddefnyddio, prosesu/ailbrosesu ac ailgylchu) yn y lle iawn, ond hefyd o ran cydnabod natur sylfaenol cyflenwad y deunyddiau i'r diwydiant datblygu.

Mae angen i brosiectau mawr ystyried eu gofynion ar gyfer agregau a dylai'r Fframwaith gynnig cyfeiriad o ran sut i ddelio â'r mater hwn. Fodd bynnag, bydd yn rhaid iddo ystyried sut i sicrhau cydbwysedd rhwng gorgyflenwi (lle gall y cyflenwad gael ei ddefnyddio yn ôl galw ac nid yn gysylltiedig yn uniongyrchol â'r prosiectau mawr hynny) ac effeithiau.

# Amgylchedd




© Hawlfraint y Goron 2015
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru
Gorffennaf 2015

Mae angen diogelu glanfeydd a mathau eraill o seilwaith sy'n angenrheidiol ar gyfer cludo cynnyrch trwm, gwerth isel, oherwydd ar ôl eu colli mae'n annhebygol y ceir rhai newydd yn eu lle a chanlyniad hynny fydd mwy o gludiant ar y ffyrdd.

Ymhlith y meysydd lle mae gofynion a phwysau, mae’r meysydd lle mae achosion Adeiladu a Dymchwel yn debygol o ddigwydd felly gallwn gefnogi seilwaith i ganiatáu ailgylchu neu ailddefnyddio’r rhain yn hytrach na'u hanfon i safleoedd tirlenwi. Gellir ystyried ardaloedd trefol fel dirprwy ar gyfer galw ond dyma hefyd lle mae cyflenwad yn deillio yng nghyswllt achosion Adeiladu a Dymchwel wedi’u hailgylchu, er bod y patrwm cyflenwi yn rhesymol o ran agosrwydd (trafnidiaeth o'r cyflenwad i'r galw) ac ar sail ymchwil i allu’r amgylchedd.

### Defnyddio deunyddiau/agregau eilaidd ac wedi’u hailgylchu

Manteision defnyddio metelau eilaidd a metelau wedi’u hailgylchu yw ymestyn oes cynnyrch sylfaenol, cyfrannu at ddiogelwch cyflenwad a sicrhau arbedion sylweddol o ran cynhyrchu ynni a nwyon tŷ gwydr. Mae tystiolaeth i awgrymu ei bod yn debygol bod canran y cyfraniad sydd ar gael o ffynonellau eilaidd a rhai wedi’u hailgylchu wedi codi o tua 10% o gyfanswm y farchnad agregau yn y 1990au i oddeutu 28% yn 2010 (o ganlyniad uniongyrchol i gymhellion ariannol a gwaith hyrwyddo i gynyddu atebolrwydd) wedi cyrraedd y brig erbyn hyn. Mae angen hwyluso'r seilwaith angenrheidiol er mwyn galluogi'r deunyddiau hyn i gyrraedd cadwyni cyflenwi. Llechi, er enghraifft, yw'r deunydd mwyaf arwyddocaol sy'n eilaidd neu’n ddeunydd sy'n cael ei ailgylchu yng ngogledd Cymru - caiff ei ddefnyddio fel sgil-gynnyrch y broses o gynhyrchu llechi toi a deunydd eilaidd o domenni gwastraff.

Mae achosion gwastraff Adeiladu a Dymchwel yn cyd-fynd â gweithgareddau adeiladu ond nid yw'n glir a oes digon o gapasiti i brosesu/ailbrosesu. Mae gwastraff anadweithiol yn dal i gael ei roi mewn safleoedd tirlenwi yn ôl yr adroddiadau monitro diweddaraf sy'n awgrymu yn anecdotaidd bod cyfle pellach i ddefnyddio’r deunydd hwn yn effeithiol.

### Dyluniad a dewisiadau deunyddiau a chynhyrchion ar gyfer yr amgylchedd adeiledig

Gallwn ddiogelu cyflenwadau hirdymor o ddeunyddiau drwy wneud dewisiadau effeithlon o ran adnoddau ynghylch sut rydym yn defnyddio adnoddau nawr. Mae egwyddorion economi gylchol yn awgrymu:

- codi ymwybyddiaeth o ddewisiadau - pecynnu, gwahanu ffynonellau a chasglu gwastraff, defnyddio deunyddiau adnewyddadwy ac ystyried deunyddiau nad oes angen llawer iawn o ynni i’w cynhyrchu.

- dylanwadu ar ddewisiadau a wneir yn ystod camau dylunio - ar gyfer dewis a thrin safleoedd ac ar gyfer adeiladau/seilwaith.
- hyrwyddo'r neges y gall cymhwyso egwyddorion economi gylchol i'r amgylchedd adeiledig sicrhau buddion o ran newidiadau mewn costau refeniw dros amser a chadw gwerth gweddilliol sylweddol yn yr adeilad ar ddiwedd ei oes.  Ar y llaw arall, mae dewisiadau gwael yn arwain at ddychweliadau sy’n lleihau

**Beth gall y Fframwaith ei wneud?**

Un opsiwn fyddai i'r Fframwaith bennu targed i gynyddu’r cynnwys sy'n cael ei ailgylchu mewn cynlluniau.  Gallai'r Fframwaith bennu polisi ar gyfer dosbarthiad gofodol cyfleusterau ailbrosesu, gan gynnwys, er enghraifft, ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu crynhoi mewn ardaloedd trefol, er mwyn eu cydleoli â'r ffynhonnell wastraff.

Gallai’r prosiectau a amlinellir yn y Fframwaith fod yn esiamplau ar gyfer yr economi gylchol.

**Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?**

Un o nodau strategol Llywodraeth Cymru yw datgarboneiddio'r amgylchedd drwy leihau rhagor ar allyriadau carbon, mynd ati i reoli'r risgiau y mae’r newid yn yr hinsawdd yn ei olygu i iechyd, llesiant a chymunedau. Mae nod Agregau MTAN1 eisoes ar waith i gynyddu'r gyfran o agregau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru o ffynonellau eilaidd a ffynonellau wedi'u hailgylchu i 25% o leiaf o gyfanswm y cyflenwad agregau.

Bydd dadansoddiad gofodol y Fframwaith yn nodi ardaloedd/rhanbarthau a chanddynt ofynion gwahanol o ran twf, a drwy ddiffiniad bydd yn nodi'r deunyddiau a'r adnoddau sydd eu hangen i sicrhau'r twf hwn. Gallai'r Fframwaith ddod i'r casgliad y dylai cyfleusterau ailbrosesu gael eu cydgrynhoi mewn ardaloedd trefol, oherwydd fel arfer dyma lle byddant yn ymddangos yn y pen draw.

**Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - gweler tudalen 55**

# F Adnoddau Naturiol – Llifogydd

Adnoddau Naturiol

Natural Resources

## F. Adnoddau Naturiol - Llifogydd - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

### Trosolwg

Mae llifogydd yn effeithio ar ddiogelwch a chynaliadwyedd cymunedau ledled Cymru, gyda rhyw un o bob chwe eiddo mewn perygl o lifogydd o afonydd, y môr neu ddŵr wyneb. Mae gan lifogydd hefyd ganlyniadau economaidd mawr.

Mae'r rhagolygon newid yn yr hinsawdd yn awgrymu y gall Cymru ddisgwyl gweld gwahanol batrymau dŵr glaw yn y dyfodol, ynghyd â lefel y môr yn codi. Mae'r rhagolygon hyn yn awgrymu y bydd Cymru yn cael llifogydd yn amlach ac yn fwy difrifol yn y dyfodol, ynghyd â chyfraddau uwch o erydu arfordirol. Yn ogystal â'r newid yn yr hinsawdd, bydd mwy o berygl llifogydd yn sgil rheoli tir gwael, ac adeiladu yn y mannau anghywir. Mae'r system gynllunio yn hollbwysig i sicrhau bod gwaith datblygu yn gallu gwrthsefyll effeithiau llifogydd, ond ei fod, yn y lle cyntaf, lle bo modd, yn cael ei gyfeirio oddi wrth ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd.

### Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Mae'r *Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru* wedi nodi pedwar amcan cyffredinol ar gyfer rheoli peryglon llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru:

- lleihau canlyniadau llifogydd ac erydu arfordirol i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd
- codi ymwybyddiaeth ac ennyn diddordeb pobl mewn rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol
- rhoi ymateb effeithiol a pharhaus i lifogydd ac achosion o erydu arfordirol
- blaenoriaethu buddsoddi yn y cymunedau mwyaf agored i niwed.

Mae *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol* yn nodi:

> *"Mae disgwyl i'r newid yn yr hinsawdd barhau, ac mae hynny'n golygu y bydd yn rhaid inni leihau allyriadau carbon ymhellach, gan fynd ati i reoli'r peryglon i iechyd, i lesiant ac i gymunedau yn sgil y newid yn yr hinsawdd."*

Bydd gan y system gynllunio rôl hanfodol yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol yn y gwaith o 'fynd ati i reoli'r peryglon' sy'n cael eu nodi yn Ffyniant i Bawb.

### Beth yw prif dueddiadau'r dyfodol?

Newid yn yr hinsawdd yw'r ffactor amlwg wrth ystyried sut bydd perygl llifogydd yn newid yn y dyfodol. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nodyn canllaw cynllunio[29] yn 2016 yn amlinellu'r ystyriaethau y dylid eu gwneud o ran newid yn yr hinsawdd wrth gynnal asesiadau canlyniadau llifogydd. Mae'r nodyn yn amlinellu'r ystyriaethau ar gyfer amcanestyniad o benllanw llif afonydd yn y tair ardal basn afon yng Nghymru

a’r amcanestyniad y bydd lefel y môr yn codi 1094mm ar draws holl arfordir Cymru erbyn 2116.

Mae Adran 4 Adroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ar Newid yn yr Hinsawdd[30] yn nodi:

> *Llifogydd yw’r risg mwyaf hirdymor i berfformiad y seilwaith o’r newid yn yr hinsawdd. Ond gallai’r risgiau cynyddol o wres, prinder dŵr a llethrau ansefydlog a achosir gan dywydd difrifol hefyd fod yn sylweddol.*

O ganlyniad i newid yn yr hinsawdd, mae disgwyl y bydd llifogydd yn dod yn fwy cyffredin nag ydynt ar hyn o bryd:

> *Gallai llifoedd cyffredinol yr afonydd gynyddu 10-15% yn ystod y gaeaf erbyn 2050. Fodd bynnag, gallent leihau fwy na 50% yn ystod yr haf a dechrau’r hydref, a chymaint ag 80% mewn rhai lleoedd. Mae’n bosibl y bydd cyfnodau o sychder a llifogydd yn digwydd yn amlach. Gallai’r newid yn yr hinsawdd effeithio hefyd ar gyfraddau adlenwi dŵr daear.*

Mae’r adroddiad yn nodi cysylltiad clir rhwng bygythiad cynyddol llifogydd, a’r her o ddarparu tai newydd ar gyfer cenedlaethau’r dyfodol:

> *Mae’r angen am dai yn cynyddu yng Nghymru gan fod nifer yr aelwydydd yn cynyddu’n gyflymach na nifer y tai sydd ar gael. I’r gwrthwyneb, mae’n debygol y bydd llai o dir addas ar gael i’w ddatblygu wrth i orlifdiroedd a thiroedd isel eraill fod yn fwyfwy agored i lifogydd.*

### Beth yw’r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?


Mae’r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru yn byw yn agos at y ffynonellau posibl llifogydd, mewn dinasoedd a threfi a sefydlwyd yn hanesyddol oherwydd eu bod yn agos at ddŵr a'r cyfyngiadau topograffig oherwydd bryniau a dyffrynnoedd Cymru. Yn yr un modd, mae llawer o filltiroedd o ffyrdd a rheilffyrdd allweddol mewn ardaloedd lle ceir perygl o lifogydd, naill ai ar rannau agored o’r arfordir neu ar loriau isel dyffrynnoedd. Mae ein cysylltedd a'n gallu i gael mynediad at swyddi a gwasanaethau dan fygythiad pan fydd llifogydd yn amharu ar yr asedau seilwaith allweddol hyn.

Mae modd adnabod ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd drwy fapio perygl llifogydd. Mae Map Cyngor Datblygu TAN 15 yn nodi, at ddibenion cynllunio, yr ardaloedd lle dylid cyfyngu ar ddatblygiad neu reoli’r sefyllfa'n ofalus, o ganlyniad i’r perygl o lifogydd o afonydd a’r môr.

Mewn ardaloedd arfordirol, mae Cynlluniau Rheoli Traethlin yn amlinellu’r ffyrdd gweithredu a argymhellir yn y tymor byr, y tymor canolig a’r tymor hir ar gyfer pob rhan o'r arfordir, yn amrywio o 'gadw at y llinell' i 'adlinio dan reolaeth'.

Dŵr wyneb yw’r drydedd ffynhonnell sy'n achosi perygl llifogydd sylweddol ac mae’r ffynhonnell honno'n dod yn fwyfwy pwysig.  Gall llifogydd dŵr wyneb ddigwydd yn unrhyw le bron, ond mae’r risg yn waeth o ganlyniad i ddatblygu a defnyddio arwynebau mân-dyllog.  Gall dulliau fel Draenio Cynaliadwy sicrhau nad yw safle wedi'i ddatblygu yn cynhyrchu mwy o ddŵr ffo na safle heb ei ddatblygu, a gall polisïau rheoli tir wedi’u targedu gael effaith debyg ar ardaloedd gwledig ac ucheldiroedd.

# Llifogydd




© Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2018.
Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/112/17.18
Ffynhonnell ddata: Cyfoeth Naturiol Cymru 2004, 2015
Mawrth 2018

### Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Mae’r Fframwaith yn rhoi cyfle i lunio strategaeth anheddau cynaliadwy, sy'n dynodi’r ardaloedd y bydd twf yn canolbwyntio arnynt. O ran llifogydd, bydd angen ystyried rôl a swyddogaethau lleoedd, a pha mor briodol yw datblygiad hirdymor. Bydd angen datblygiadau ym maes adeiladu cadarn, gan dderbyn y bydd rhai mannau bob amser mewn perygl o lifogydd. Lle bo modd, dylai'r strategaeth gydnabod na fydd lleoliad cynaliadwy yn lleoliad sy'n debygol o gael llifogydd rheolaidd a sylweddol o unrhyw ffynhonnell.

Mae'r Fframwaith hefyd yn gyfle i ddatblygu atebion strategol ymhellach ar sail dalgylchoedd, drwy sicrhau bod ucheldiroedd yn cael eu rheoli'n weithredol i leihau'r dŵr ffo sy'n llifo drwy'r dalgylchoedd poblog. Dylid ffafrio defnydd tir sy'n cael effeithiau cadarnhaol ar faint a chyfradd dŵr ffo dros ddefnydd tir llai buddiol, er mwyn lleihau'r risg i ardaloedd y mae llawer o bobl yn byw ynddynt.

| **Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - Adnoddau Naturiol, Economi Gylchol a Llifogydd** |
| --- |
| Cryfhau cadernid asedau bioamrywiaeth, gan gynnwys cynefinoedd, rhywogaethau a safleoedd wedi’u dynodi.<br><br>Cefnogi’r gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy a hwyluso’r broses o adfer natur.<br><br>Amddiffyn, hyrwyddo a gwella tirweddau pwysig yn genedlaethol.<br><br>Rhoi cyfeiriad strategol i reoli ac addasu i’r bygythiad posibl o lifogydd.<br><br>Sicrhau effeithlonrwydd o ran adnoddau, lleihau'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau a chefnogi datblygiad yr economi gylchol.<br><br>Cefnogi’r gwaith o leihau llygredd a gwella ansawdd aer, sŵn a dŵr.<br><br>Cefnogi cyflawni amcanion Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru. |

# G. Trafnidiaeth

# G. Trafnidiaeth - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

## Trosolwg

Mae trafnidiaeth yn bwysig - mae'n cysylltu pobl â swyddi, cyfleusterau a gwasanaethau. Mae'r ffordd rydym yn teithio ac yn symud nwyddau hefyd yn bwysig, gan fod hyn yn effeithio ar ein hiechyd, ein dulliau rhyngweithio cymdeithasol ac ar yr amgylchedd. Gall y system gynllunio hwyluso seilwaith trafnidiaeth a, drwy ddylanwadu ar leoliad, graddfa, dwysedd, cymysgedd o ddefnyddiau a dyluniad datblygiad newydd, gall leihau'r angen i deithio, cefnogi dulliau teithio cynaliadwy a helpu i fynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd a llygredd aer.

## Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?


Yn Ffyniant i Bawb, mae'r Llywodraeth bresennol yng Nghymru wedi ymrwymo i fuddsoddi'n sylweddol mewn trafnidiaeth, gan gynnwys y prosiectau canlynol:

- Darparu ffordd liniaru'r M4, a gwelliannau i'r A465, yr A55, yr A40 yng Ngorllewin Cymru a chefnffyrdd eraill.
- Creu Metro De Cymru a bwrw ymlaen i ddatblygu system Metro Gogledd Cymru.
- Datblygu masnachfraint rheilffyrdd newydd, nid er elw, a chyflwyno rhwydwaith mwy effeithiol o wasanaethau bysiau ar ôl i'r pwerau gael eu datganoli.
- Sicrhau trefniadau tocynnau di-dor a marchnata gwell fel rhan o'r trefniadau teithio newydd ar gyfer Cymru.
- Sicrhau mynediad gwell at deithio llesol i bawb.

Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn datgan nod Llywodraeth Cymru ar gyfer seilwaith i gefnogi twf a buddsoddiad. Mae ffyrdd, rheilffyrdd, porthladdoedd a meysydd awyr yn seilwaith allweddol o ran galluogi ein heconomi i weithredu.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi ymrwymo i helpu pawb yng Nghymru i fyw bywydau hirach ac iachach. Mae Ffyniant i Bawb yn amlinellu ei bod yn bwysicach nag erioed annog pobl i gadw'n heini, yn ogystal â'u trin pan fyddant yn sâl, ac un o'r ffyrdd o gyflawni hyn yw i bobl fod yn fwy egnïol yn gorfforol ac i gynnwys hyn yn eu gweithgareddau bob dydd. Nod Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod pobl yn dewis cerdded a beicio ar gyfer teithiau byrrach, yn enwedig teithiau bob dydd, fel i'r gweithle neu sefydliad addysg ac yn ôl, neu er mwyn cael mynediad at wasanaethau iechyd a hamdden neu wasanaethau a chyfleusterau eraill [31]. Mae annog pobl i gerdded a beicio mwy, yn ogystal â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, hefyd yn bwysig i leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi newid yn yr hinsawdd.

# Trafnidiaeth (Cynhyrchiol a Mentrus)




© Hawlfraint y Goron 2018
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/112/17.18
Mawrth 2018


OGL

Mae strategaeth drafnidiaeth Llywodraeth Cymru[32], sy'n ceisio hyrwyddo trafnidiaeth gynaliadwy, wrthi'n cael ei hadolygu ar hyn o bryd. Bydd hyn yn cael ei rhaglennu i'w chynnal ar yr un pryd â'r broses o ddatblygu'r Fframwaith.

### Beth yw prif dueddiadau'r dyfodol?

Ar hyn o bryd, cerbydau preifat sy'n cael lle blaenllaw o ran trafnidiaeth yng Nghymru. Fodd bynnag, bu cynnydd mawr yn y blynyddoedd diwethaf yn nifer y bobl sy'n teithio ar drenau yng Nghymru, gyda nifer y teithwyr yn cynyddu 61% rhwng 2003 a 2013. Nid oes tueddiadau clir a chyson o ran nifer y bobl sy'n defnyddio bws dros amser. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod gostyngiad bach wedi bod. Ar y cyfan, mae'r tueddiadau presennol yn awgrymu, er gwaethaf y twf yn nifer y bobl sy'n defnyddio rheilffyrdd, bydd dibynnu ar y car yn parhau'n wir yn y tymor byr i ganolig o leiaf. Mae'r rhagolygon hefyd yn dangos 150% o leiaf yn fwy o alw cyffredinol am deithio ar gyfer trafnidiaeth gyhoeddus a cherbydau preifat erbyn 2030. Mae gan y system gynllunio rôl bwysig i ddylanwadu ar y tueddiadau hyn. Gallai datblygiadau mewn technolegau trafnidiaeth, megis cerbydau awtonomaidd neu gerbydau heb yrrwr, hefyd gael effaith drawsnewidiol ar ein systemau trafnidiaeth ac ymddygiad y boblogaeth.


### Ffigur G1 - Mynegai Traffig holl Gerbydau Modur Prydain Fawr




*Ffynhonnell: Yr Adran Drafnidiaeth*

Mae cyfran sylweddol o'r boblogaeth nad ydynt byth neu'n anaml yn teithio ar droed neu ar feic. Mae hyn yn tynnu sylw at broblem sylweddol o anweithgarwch ac yn peri pryder ac ysytried y goblygiadau iechyd cysylltiedig. I'r gwrthwyneb, mae nifer fawr o blant yn cerdded i'r ysgol, er bod pa mor agos i'r ysgol maent yn byw yn dylanwadu'n sylweddol ar hyn. Mae hyn yn dangos effaith pobl sy'n byw yn agos i ysgolion, yn ogystal â gwasanaethau a chyfleusterau yn fwy cyffredinol. Waeth beth fo'r pellter, ychydig iawn o blant sy'n beicio i'r ysgol.


### Ffigur G2 - Pa mor Aml mae Oedolion yn Cerdded neu'n Beicio fel Ffordd o Deithio, yn ôl Rhyw




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15*[3]

[3] Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15

## Ffigur G3 – Sut mae Plant yn Teithio i'r Ysgol fel arfer




*Ffynhonnell: Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15[4]*


Dros y 60 mlynedd diwethaf mae nifer y cerbydau cludo nwyddau ym Mhrydain Fawr wedi cynyddu'n sylweddol a gwelwyd gwyro oddi wrth y rheilffyrdd i'r ffordd. Yn ystod y degawd diwethaf, mae'r gyfradd twf mewn cludo nwyddau wedi lefelu ac mae trafnidiaeth ar y ffordd wedi cynyddu mwy a mwy.

Mae nifer teithwyr Maes Awyr Cymru Caerdydd yn parhau i gynyddu, gan gyrraedd dros 1 miliwn yn 2014-15.

Yn 2014, roedd y sector trafnidiaeth yn gyfrifol am 13% o holl allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru. Er gwaethaf y gwelliannau yn effeithlonrwydd cerbydau cludiant, mae fforddiadwyedd ceir wedi cynyddu a bu cynnydd yn y galw am drafnidiaeth. O ganlyniad, yn wahanol i'r rhan fwyaf o sectorau eraill, y mae llawer ohonynt wedi gweld gostyngiadau sylweddol, mae'r allyriadau yn sgil trafnidiaeth yn debyg i'r rhai yn 1990. Er mwyn cyflawni'r targed heriol o leihau allyriadau o leiaf 80% erbyn 2050, bydd angen datgarboneiddio mawr yng Nghymru, gan gynnwys y sector trafnidiaeth.

[4] Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15

**Ffigur G4 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr gan y Sector Trafnidiaeth yng Nghymru**





*Ffynhonnell: Rhestrau Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon: 1990-2015*[5]

**Beth yw'r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?**

Mae nifer fawr o brosiectau trafnidiaeth wedi'u cyflwyno drwy'r Alwad am Brosiectau ac mewn digwyddiadau ymgysylltu, y byddwn yn parhau i'w hystyried drwy gydol y broses. Mae'r Llywodraeth bresennol wedi ymrwymo i nifer o brosiectau trafnidiaeth allweddol, megis cynlluniau'r Metro, trydaneiddio rhannau o'r rhwydwaith rheilffyrdd a ffordd liniaru'r M4, y dylai'r Fframwaith eu cefnogi. Yn ogystal â hwyluso'r gwaith o gyflwyno prosiectau allweddol, gall y Fframwaith hefyd alluogi gwireddu eu buddion ehangach.

[5] Rhestrau Nwyon Tŷ Gwydr ar gyfer Lloegr, yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon: 1990-2015

# Trafnidiaeth (Llesol a Chymdeithasol)




© Hawlfraint y Goron a hawl cronfeydd data 2018.
Arolwg Ordnans 100021874
Cartograffeg • Llywodraeth Cymru • ML/112/17.18
Ffynhonnell ddata : Cyfoeth Naturiol Cymru 2018 ; Sustrans 2017
Mawrth 2018

Un o’r themâu allweddol a ddaeth i’r amlwg drwy’r Alwad am Brosiectau a Thystiolaeth a’r digwyddiadau ymgysylltu oedd pwysigrwydd sicrhau cysylltiadau rhwng y dwyrain a’r gorllewin. Mae hyn yn cynnwys ffyrdd, fel yr M4 a’r A55, a’r rheilffyrdd, fel Paddington i orllewin Cymru a Crewe i Gaergybi. Roedd awgrymiadau hefyd i wella’r cysylltiadau rhwng y gogledd a'r de. Dylai'r Fframwaith gydnabod pwysigrwydd strategol llwybrau allweddol a chefnogi dulliau o leihau traffig ffyrdd ac annog pobl i ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fel dewis arall, yn enwedig ar gyfer teithiau mwy lleol, yn ogystal â moderneiddio a thrydaneiddio'r rhwydwaith rheilffyrdd.

Mae Maes Awyr Caerdydd yn hollbwysig i Gymru. Mae’n cynnig cysylltiad cenedlaethol a rhyngwladol ar gyfer twristiaeth a busnes. Mae gan Lywodraeth Cymru gynlluniau uchelgeisiol i ddatblygu’r maes awyr a’r ardal gyfagos, a dylai’r Fframwaith eu cefnogi. Dylai'r Fframwaith hefyd gefnogi’r gwaith o wella’r cysylltiadau ffyrdd a rheilffyrdd i'r maes awyr, yn enwedig pa mor hygyrch yw’r drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae gan borthladdoedd yng Nghymru, gan gynnwys Abertawe, Port Talbot, Y Barri, Caerdydd, Casnewydd, Aberdaugleddau, Abergwaun a Chaergybi rôl bwysig o ran cludo nwyddau. Dylai'r Fframwaith gydnabod pwysigrwydd strategol porthladdoedd allweddol a hyrwyddo cludo nwyddau yn gynaliadwy ohonynt.

Mae hwyluso cerdded a beicio yn fater allweddol i’r Fframwaith. Rhaid i awdurdodau lleol baratoi Mapiau Teithio Llesol Integredig ac mae Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ar gael. Cyflwynwyd nifer o brosiectau teithio llesol penodol hefyd drwy'r Alwad am Brosiectau. Ar eu pen eu hunain, prosiectau bach yw’r rhain, ond wrth eu hystyried gyda'i gilydd, gellid eu hystyried yn rhai o arwyddocâd cenedlaethol.

Trafnidiaeth, a thrafnidiaeth ffyrdd yn arbennig, sy'n bennaf gyfrifol am lygredd sŵn ac aer. Mae’r system gynllunio yn rhan annatod o'r gwaith o fynd i’r afael â llygredd sŵn ac aer ac, i wneud hynny, mae angen iddi gael ei hymgorffori yn y gwaith o gynllunio trafnidiaeth. Gall y system gynllunio sicrhau nad yw datblygiad newydd yn ddibynnol ar gar ac yn hytrach ei fod yn cael ei leoli a'i gynllunio i annog pobl i gerdded, beicio a defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus. Mae nifer o Barthau Ansawdd Sŵn ac Aer yng Nghymru, yn enwedig o amgylch prif ffyrdd megis yr M4 a'r A55; dylai'r Fframwaith gefnogi amcanion y parthau hyn.

### Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru drwy integreiddio mesurau trafnidiaeth â chynllunio defnydd tir. Gall y Fframwaith gefnogi'r prosiectau seilwaith trafnidiaeth allweddol y mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo iddynt,

megis Metro De Cymru, a chydnabod pwysigrwydd strategol, a cheisio hwyluso twf Maes Awyr Caerdydd a phorthladdoedd allweddol.

Gall y Fframwaith gefnogi targed lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Llywodraeth Cymru drwy gefnogi datgarboneiddio'r sector trafnidiaeth. Gellir cyflawni hyn drwy fynd i'r afael â thueddiadau presennol y galw cynyddol am deithio, yn enwedig y ddibyniaeth ar deithio mewn car, a drwy hyrwyddo cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Gall y Fframwaith hefyd hyrwyddo cludo nwyddau ar reilffyrdd, ar ddŵr neu mewn piblinellau dros ffyrdd. Gall y Fframwaith hefyd gefnogi trydaneiddio rheilffyrdd a'r defnydd o gerbydau trydan a charbon isel.

Gall y Fframwaith gefnogi nod Llywodraeth Cymru i wella iechyd y genedl, drwy hyrwyddo datblygiad sydd wedi'i leoli ac wedi'i gynllunio i bobl gerdded a beicio fel rhan o'u gweithgareddau bob dydd. Gall y Fframwaith hefyd gyfrannu at wella ansawdd sŵn ac aer, drwy gefnogi gostyngiad yn nifer y cerbydau ar y ffyrdd.

| **Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith – Trafnidiaeth** |
| --- |
| Cefnogi gostyngiad yn nifer y cerbydau preifat sy'n teithio a thwf mewn cerdded, beicio a thrafnidiaeth gyhoeddus.<br><br>Hwyluso'r gwaith o gyflwyno a gwella seilwaith trafnidiaeth allweddol i ddatgarboneiddio teithio. |

# H Yr Iaith Gymraeg

Cymraeg
Y Gymraeg
Welsh Language

## H. Yr Iaith Gymraeg - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

### Trosolwg

Mae’r iaith Gymraeg yn nodwedd bwysig a nodedig ac yn rhan o hunaniaeth Cymru. Mae un rhan o bump o’r boblogaeth yn ei siarad ond mae’n cael ei dysgu i’r rhan fwyaf o blant yng Nghymru. Y Gymraeg yw prif iaith y gymuned yn rhannau o orllewin a gogledd Cymru o hyd, tra bod yr iaith wedi tyfu'n gyson mewn sawl rhan o'r de-ddwyrain dros y blynyddoedd diwethaf.


### Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i weld yr iaith Gymraeg yn ffynnu a sicrhau bod Cymru yn datblygu fel cenedl ddwyieithog. Fel mae *Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol* yn nodi:


> *“Byddwn yn creu gwlad o gymunedau bywiog, croesawgar a chydlynol, sy’n ymfalchïo yn y presennol ac yn uchelgeisiol am y dyfodol − cenedl wirioneddol ddwyieithog sy’n dathlu ei diwylliant, ei threftadaeth a’i hamrywiaeth unigryw.”*

Cyhoeddwyd y Strategaeth Iaith Gymraeg, *Cymraeg 2050* ym mis Gorffennaf 2017. Mae’n cynnwys dau nod, sef sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, gydag 20% o’r boblogaeth yn rhugl ac yn defnyddio’r iaith bob dydd.

### Ffigur H1 - Y llwybr at sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg, 2017-2050[33]



**Ffigur H2 - Canran y bobl (3 oed a hŷn) sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl Ardal Gynnyrch Ehangach Leol, 2011**




## Beth yw prif dueddiadau'r dyfodol?

Y dangosydd allweddol o ran yr iaith Gymraeg yw'r Cyfrifiad 10 mlynedd, sy'n cofnodi nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n dair oed a hŷn. Canfu Cyfrifiad 2011 bod 562,000 o bobl 3 oed a hŷn yn gallu siarad Cymraeg (19% o'r boblogaeth) - gostyngiad o 20,000 ers 2001, ond cynnydd ar lefelau 1991.

Mae'r strategaeth *Cymraeg 2050* yn cynnwys asesiad o'r newidiadau sydd angen eu gwneud i dueddiadau presennol er mwyn galluogi gwireddu'r nod o sicrhau miliwn o siaradwyr Cymraeg. Mae Ffigur H3 yn dangos y gwahaniaeth rhwng y tueddiadau presennol a'r llwybr mae angen ei ddilyn er mwyn cyrraedd 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Ffigur H3 - Amcanestyniad a llwybr ar gyfer nifer y siaradwyr Cymraeg tair oed a hŷn, 2011 i 2050




## Beth yw'r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?

Gall y system gynllunio sefydlu amodau ar gyfer datblygiadau a allai helpu'r iaith Gymraeg i ffynnu. Yr enghraifft berffaith yw datblygu economaidd, gan fod swyddi'n hollol angenrheidiol i gynnal a chynyddu'r boblogaeth sy'n siarad Cymraeg mewn unrhyw ardal yng Nghymru. Gall cynllunio hefyd gyfeirio datblygiad tai newydd a chyfleusterau cymunedol. Mae hyn yn cefnogi trydedd thema *Cymraeg 2050*, sef *'creu amodau ffafriol'* - yn enwedig yng nghyswllt yr agwedd *'Cymuned ac Economi'*.

## Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Mae'r amrywiadau o ran pa mor gyffredin yw’r iaith yn Ffigur H2 uchod yn dangos bod agweddau lleol yn hanfodol yn y maes hwn. Gall y Fframwaith nodi blaenoriaethau rhanbarthol. O ran y gorllewin a'r gogledd orllewin - 'cadarnleoedd' yr iaith - lle mae cyfran uchel o'r boblogaeth eisoes yn siarad Cymraeg, efallai y bydd angen canolbwyntio ar gynnal nifer y siaradwyr Cymraeg, a'u cynyddu lle bo hynny'n bosibl. Yr her allweddol yn yr ardaloedd hyn, sydd o natur wledig yn gyffredinol, yw eu gwneud yn fwy deniadol er mwyn i oedolion ifanc aros yn yr ardal, gan fod patrymau demograffig yn dangos tuedd hirdymor o allfudo ymysg y grŵp oedran hwn, i chwilio am well rhagolygon cyflogaeth yn ôl pob tebyg. Bydd darparu cyfleoedd cyflogaeth a thai priodol, gan gynnwys opsiynau fforddiadwy, yn hanfodol.

Efallai y bydd mwy o gyfle i gynyddu pa mor gyffredin yw’r Gymraeg, a gwneud cynnydd tuag at y targed 1 miliwn, mewn ardaloedd sydd â nifer a chyfran is o siaradwyr Cymraeg yn hanesyddol. Yn yr ardaloedd hyn nid yw twf a datblygiad yn peri heriau i'r iaith. Gallai poblogaeth sy'n tyfu a chanddi gyfleoedd cyflogaeth a thai sydd â chysylltiadau da, ynghyd â chyfleoedd addysg a chymdeithasol i ddysgu a defnyddio'r iaith, arwain at gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg.

| **Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - yr Iaith Gymraeg** |
|---|
| Cefnogi seilwaith economaidd-gymdeithasol cymunedau a helpu i greu'r amodau i wireddu amcanion iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru, gan gynnwys 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |

# I Iechyd

Iechyd a Lles

Health and Well-being

## I. Iechyd - Cymru Heddiw ac Ysgogwyr Newid

### Trosolwg

Mae cael iechyd da a llesiant drwy gydol ein bywydau yn ein galluogi i gyflawni ein potensial yn gymdeithasol, yn economaidd ac yn ddiwylliannol. Gall y system gynllunio helpu i roi'r amodau a'r seilwaith ar waith sy'n helpu pobl i fyw bywydau iach, gan gynnwys darparu'r canlynol:

- mannau o safon uchel;
- gwell mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau;
- ystod o dai o ansawdd uchel;
- seilwaith teithio llesol;
- mynediad i fannau agored a'r amgylchedd naturiol

### Beth yw nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ystod eang o ffactorau cymdeithasol, a elwir yn benderfynyddion economaidd-gymdeithasol iechyd, yn effeithio ar iechyd a llesiant cyffredinol unigolion, cymunedau a'r boblogaeth i gyd. Mae'r rhan fwyaf o'r penderfynyddion hyn y tu allan i'r sector iechyd ei hun, ac felly mae Llywodraeth Cymru yn canolbwyntio ar integreiddio ystyried iechyd ar draws pob maes polisi. Gelwir hyn yn agwedd 'Iechyd ym Mhob Polisi'.

Yn unol â'r agwedd 'Iechyd ym Mhob Polisi', mae iechyd yn cael lle amlwg yn y blaenoriaethau a nodir yn Ffyniant i Bawb. Mae 'Iach ac egnïol' yn un o bedair thema allweddol y strategaeth, gydag amcan lefel uchel y Llywodraeth yn cael ei mynegi fel a ganlyn:

> *'Ein nod yw gwella iechyd a llesiant yng Nghymru, ar gyfer unigolion, teuluoedd a chymunedau, gan ein helpu i wireddu'n huchelgais i sicrhau ffyniant i bawb, a chymryd camau mawr i newid ein ffordd o weithio, gan newid y pwyslais o drin cyflyrau i atal cyflyrau'.*

Mae'r ffocws hwn hefyd yn cael ei adlewyrchu ym mhwysigrwydd hanfodol y pum maes blaenoriaeth yn y strategaeth (blynyddoedd cynnar, tai, gofal cymdeithasol, iechyd meddwl a sgiliau a chyflogadwyedd) i'r agenda iechyd.

Ymhlith y camau gweithredu penodol yn *Ffyniant i Bawb*, mae ymrwymiadau i'r canlynol:

- darparu gwasanaethau iechyd a gofal o safon sy'n addas ar gyfer y dyfodol; gan gynnwys:
    - symud y gofal iechyd sy'n cael ei ddarparu i gymunedau ac o ysbytai;
    - buddsoddi mewn cenhedlaeth newydd o ganolfannau iechyd a gofal cymunedol integredig;
- hyrwyddo iechyd da a llesiant i bawb; gan gynnwys:

  - annog pobl i wneud mwy o weithgareddau corfforol, gan ddefnyddio adnoddau naturiol;
  - darparu rhwydwaith trafnidiaeth gyhoeddus integredig;
  - darparu ffyrdd digidol o gael gafael ar wasanaethau iechyd a gofal
  - buddsoddi mewn cartrefi i wella eu cynhesrwydd ac effeithlonrwydd ynni
- creu cymunedau iachach a gwell amgylcheddau; gan gynnwys:
  - Mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd ar gyfer unigolion a mynediad at wasanaethau;
  - Cydlynu rhaglenni cyfalaf tai, iechyd a gofal cymdeithasol
  - Lleihau allyriadau a gwella ansawdd aer drwy fesurau cynllunio, seilwaith, rheoleiddio a chyfathrebu.

Mae nodau "Cymru iachach" a "Chymru fwy cyfartal" yn rhoi iechyd ac anghydraddoldebau iechyd yn ganolog i waith y sector cyhoeddus cyfan. Mae hyn eto yn cydnabod bod iechyd da yn dibynnu ar fwy na darparu gwasanaethau iechyd da. Mae’r ffordd y caiff cymdeithas ei threfnu; ei ffyniant economaidd; cyfleoedd bywyd cynnar unigolyn; ei gyfleoedd addysg a chyflogaeth; cefnogaeth a chydlyniad cymunedol; y bwyd rydym yn ei fwyta; y cartrefi rydym yn byw ynddynt a llawer mwy o ffactorau yn ffurfio penderfynyddion cymdeithasol ehangach sy'n effeithio ar iechyd unigolion a'r genedl.

### Beth yw prif dueddiadau’r dyfodol?

Mae nifer o dueddiadau wedi'u nodi yng nghyswllt iechyd. Mae iechyd cyffredinol yn gwella; mae pobl yn byw'n hirach ac mae cyfraddau mathau penodol o glefydau yn gostwng. Fodd bynnag, nid yw gwelliannau mewn iechyd yn gyfartal ar draws cymunedau, ac mae demograffeg sy'n newid fel poblogaeth sy'n heneiddio yn cyflwyno heriau newydd o ran clefydau anhrosglwyddadwy a rheoli cyflyrau hirdymor.


Mae'r graddiant cymdeithasol ym maes iechyd yn ddiamwys yng Nghymru: mae iechyd yn gwella yn raddol wrth i sefyllfa economaidd-gymdeithasol pobl/cymunedau wella. Mae'r graddiant cymdeithasol hwn yn effeithio ar bob rhan o'n bywydau, o enedigaeth, drwy addysg a chyflogaeth, i'n marwolaeth yn y pen draw.

Cydnabyddir bod iechyd y rheini sy'n byw mewn cymunedau gwledig mewn sawl rhan o Gymru yn gyffredinol dda o'i gymharu â'r rheini mewn lleoliad mwy trefol. Fodd bynnag, mae ffactorau sy'n benodol i amgylchedd gwledig o'i gymharu ag amgylcheddau trefol a all gael effaith fwy sylweddol ar iechyd ac arwain at anghydraddoldebau ac iechyd gwael, megis pellter o wasanaethau cyhoeddus a chefnogaeth; argaeledd cludiant; safonau tai; a phoblogaeth sy'n heneiddio.


Mae tueddiadau cymysg wrth edrych ar salwch penodol, gyda pha mor gyffredin yw rhai salwch megis cyflyrau'r galon ac arthritis wedi gostwng ychydig dros y 10 mlynedd diwethaf, tra mae eraill megis diabetes a salwch meddwl wedi cynyddu.

Mae pa mor gyffredin yw problemau iechyd meddwl wedi cynyddu, gan godi o 9% o oedolion yn adrodd eu bod wedi cael eu trin yn 2009 i 13% erbyn 2015. Nid oes llawer o newid i’w weld mewn cyfraddau canser, er bod y niferoedd cyffredinol wedi cynyddu oherwydd y boblogaeth sy'n tyfu ac yn heneiddio, yn ogystal â ffactorau megis sgrinio a gwelliannau mewn cyfraddau goroesi.

**Ffigur I1 - Amddifadedd o ran iechyd yng Nghymru**



## Ffigur I2 – Dangosyddion anghydraddoldebau iechyd




*Ffynhonnell:Arsyllfa Iechyd Cyhoeddud Cymru, Iechyd a'r phenderfynyddion yng Nghymru, llywio cynllunio strategol, 2018*

Mae anghydraddoldebau sylweddol rhwng iechyd y bobl fwyaf a lleiaf difreintiedig yng Nghymru. O ran disgwyliad oes cyffredinol, mae gwahaniaeth o tua 8 mlynedd rhwng yr ardaloedd mwyaf difreintiedig a'r lleiaf difreintiedig, tra mae'r gwahaniaeth mewn disgwyliad oes iach tua 18 mlynedd.  Mae achosion cymhleth ac ystyfnig anghydraddoldebau iechyd yn golygu bod angen cyfuniad o ddulliau i fynd i'r afael â nhw, drwy weithio'n wahanol â phartneriaid, ymyrryd yn gynnar a hyrwyddo gwell integreiddio rhwng gwasanaethau.


Gyda phoblogaeth sy'n heneiddio, mae'n bosibl y bydd cynnydd amlwg mewn pobl sydd â dementia os bydd y cyfraddau presennol yn parhau. Erbyn 2025 mae'n bosibl y bydd 50,000 o bobl 65 oed neu hŷn yn byw gyda dementia yng Nghymru, gyda bron i chwarter ohonynt yn 90 oed neu'n hŷn.

Mae tueddiadau cymysg mewn ymddygiadau ffyrdd iach o fyw yng Nghymru. Gan ddefnyddio tueddiadau demograffig rhagwelir y bydd lefelau ysmygu yn parhau i leihau, tra bydd lefelau gordewdra a nifer y bobl sy'n bwyta llai na phum dogn o ffrwythau a llysiau bob dydd yn debygol o gynyddu ychydig. Mae camau gweithredu'r Llywodraeth yng nghyswllt hyrwyddo ffyrdd o fyw iachach yn parhau i ganolbwyntio

ar feysydd allweddol megis mynd i'r afael â'r niwed a achosir gan ysmygu ac yfed gormod o alcohol, hyrwyddo deiet iach a hyrwyddo gweithgarwch corfforol ymhlith y boblogaeth. Mae mynediad at gyfleusterau a gwasanaethau iechyd yn her benodol i ardaloedd a chanddynt boblogaeth wasgaredig, gyda phobl yn gorfod teithio ymhell i gael gafael ar wasanaethau.

**Beth yw'r prif faterion gofodol ar gyfer y Fframwaith?**
Mae'r maes cynllunio'n effeithio ar lawer o benderfynyddion iechyd, naill ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, fel y dangosir yn Ffigur I3

**Ffigur 13 - Map iechyd y setliad - y berthynas rhwng iechyd a'r amgylchedd ffisegol**



Mae gan y Fframwaith gyfraniad pwysig i'w wneud tuag at sicrhau bod heriau iechyd yn cael sylw er mwyn gwella iechyd a llesiant a lleihau anghydraddoldebau. Ymhlith y prif faterion gofodol mae:

- Darparu gwasanaethau a thai priodol i ddiwallu anghenion poblogaeth sy'n heneiddio;
- Lleihau anghydraddoldeb o fewn cymunedau a rhwng cymunedau;
- Gwella ansawdd aer, ansawdd dŵr, sŵn a mynd i'r afael â thir halogedig;
- Gwella mynediad at gyfleusterau hamdden a mannau gwyrdd naturiol;
- Darparu seilwaith teithio llesol;
- Darparu gwasanaethau gan gynnwys ansawdd a lleoliad gwasanaethau, a gwella mynediad;
- Hyrwyddo a hwyluso ffyrdd o fyw iach ac egnïol;
- Darparu cefnogaeth gryfach ar gyfer iechyd meddwl;
- Lleihau arwahanrwydd ac unigrwydd.

### Sut gall y Fframwaith gefnogi nodau strategol Llywodraeth Cymru?

Drwy’r cynllun llunio lleoedd, gall y system gynllunio wella'r amodau ar gyfer gwell iechyd a llesiant sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial a sicrhau Cymru ffyniannus. Mae gan y Fframwaith rôl allweddol o ran cefnogi iechyd a llesiant drwy helpu i arwain penderfyniadau sy'n ymwneud â gwasanaethau iechyd a'r rheini sy'n effeithio ar iechyd drwy'r broses gynllunio, yn ogystal â sicrhau bod adnoddau naturiol ar gael a all annog gwelliant mewn iechyd corfforol ac iechyd meddwl gan hyrwyddo ffyrdd o fyw iach ac egnïol a lleihau anghydraddoldeb ar yr un pryd. Gall y Fframwaith helpu i alluogi pobl i gyflawni eu potensial a gwneud Cymru yn gymdeithas fwy cyfartal.

| Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith – Iechyd |
|---|
| Cefnogi ffyrdd o fyw iach ac egnïol a gwella mynediad at wasanaethau.<br><br>Cefnogi’r gwaith o leihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru. |

| Amcan Drafft ar gyfer y Fframwaith - Cymunedau Cydlynus |
|---|
| Cefnogi’r gwaith o sicrhau cymunedau cydlynus. |

| |
|---|
| |

# Cyfeiriadau

[i] Golau yn y Gwyll: Gweledigaeth ar gyfer Diwylliant yng Nghymru. Llywodraeth Cymru. mis Rhagfyr 2016.
[2] Polisi Cynllunio Cymru Pennod 11.
[3] Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016
[4] Llywodraeth Cymru (2010) Strategaeth Cymru ar y Newid yn yr Hinsawdd
[5] Datganiad Ynni Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig ar 6 Rhagfyr 2016
[6] Llywodraeth Cymru (2012) Ynni Cymru: Newid i Economi Carbon Isel
[7] Cyfeiriad at Ddatganiad Llafar y Gweinidog
[8] Cynhyrchu Ynni yng Nghymru 2016
[9] http://gov.wales/docs/det/publications/101208digitalwalescy.pdf
[10] http://gov.wales/docs/det/publications/171003-mobile-action-plan-for-wales-cy.pdf
[11] http://gov.wales/docs/det/publications/160923-superfast-cymru-project-timeline-and-targets-cy.pdf
[12] http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/accessbroadband/?lang=cy
[13] http://gov.wales/about/cabinet/cabinetstatements/previous-administration/2015/accessbroadband/?lang=cy
[14] http://llyw.cymru/rhaglenlywodraethu
[15] http://gov.wales/topics/businessandeconomy/welsh-economy/economic-action-plan/?lang=cy
[16] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/comm/170720-our-valleys-our-future-cyv2.pdf
[17] http://gov.wales/topics/businessandeconomy/growing-the-economy/city-regions/?lang=cy
[18] http://gov.wales/docs/det/publications/101208digitalwalescy.pdf
[19] http://gov.wales/docs/det/publications/171003-mobile-action-plan-for-wales-cy.pdf
[20] http://gov.wales/topics/businessandeconomy/growing-the-economy/enterprisezones/?skip=1&lang=cy
[21] http://gov.wales/docs/det/publications/120306sciencecy.pdf
[22] http://gov.wales/docs/det/publications/140313innovationstrategycy.pdf
[23] http://gov.wales/docs/statistics/2017/170505-future-trends-report-2017-cy.pdf
[24] http://gov.wales/topics/businessandeconomy/growing-the-economy/local-growth-zones/plgzones/?lang=cy
[25] http://gov.wales/topics/businessandeconomy/growing-the-economy/local-growth-zones/teifi-valley-local-growth-zone/?lang=cy
[26] http://naturalresourceswales.gov.uk/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy
[27] Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru, *Closing the circle. Circular Economy: opportunity for the Welsh built environment*
[28] Cynllun Sector Tuag at Ddyfodol Diwastraff a Chamau Gweithredu Rhaglen Atal Gwastraff, mis Mehefin 2010 i fis Mawrth 2016, Adroddiad Cryno - http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/waste_recycling/zerowaste/?skip=1&lang=cy
[29] http://gov.wales/docs/desh/publications/160831guidance-for-flood-consequence-assessments-climate-change-allowances-cy.pdf
[30] http://gov.wales/docs/statistics/2017/170505-future-trends-report-2017-cy.pdf
[31] Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013
[32] Strategaeth Drafnidiaeth Cymru
[33] Ffynhonnell ar gyfer Ffigurau 1 a 3: http://gov.wales/docs/dcells/publications/170725-technical-report-projection-and-trajectory-for-the-number-of-welsh-speakers-cy.pdf